

COLEG MEIRION-DWYFOR



Cynllun Iaith a baratowyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993

**Derbyniodd y Cynllun diwygiedig hwn gymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith
Gymraeg o dan Adran 16 Deddf yr Iaith Gymraeg ar 24 Mai 2006.**

EGWYDDOR O GYDRADDOLDEB

Mae Coleg Meirion-Dwyfor wedi mabwysiadu'r egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Mae'r Cynllun hwn yn nodi sut y bydd Coleg Meirion-Dwyfor yn gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

Cynnwys

Adran

- 1 Cynnwys y Cynllun
- 2 Natur Ieithyddol yr Ardal
- 3 Disgwyliadau Cymdeithas a Gofynion yr Economi
- 4 Safonau Gwasanaeth Cymraeg a Dwyieithog
- 5 Natur Ieithyddol y Coleg yn Gyffredinol
- 6 Y Ddarpariaeth Bresennol o Safbwynt Dysgu, Addysgu a Hyfforddiant a chrynodeb o ddatblygiadau ers 1993
- 7 Wyneb Cyhoeddus y Coleg
- 8 Partneriaethau /Cydweithio gydag eraill
- 9 Gwasanaeth Cyfieithu
- 10 Dulliau Addysgu Dwyieithog
- 11 Staff y Coleg
- 12 Cynllun Datblygu Dwyieithrwydd 2005-2008

Atodiadau

1. Cynnwys y Cynllun

1.1 Coleg Meirion-Dwyfor

- 1.1.1 Sefydlwyd Coleg Meirion-Dwyfor ar 1 Ebrill, 1993 fel y Coleg Trydyddol Dwyieithog cyntaf yng Nghymru. Mae tri phrif safle i'r Coleg - Dolgellau, Pwllheli a Glynllifon, ynghyd â chanolfannau llai ym Mlaenau Ffestiniog –Canolfan Addysg Gydol Oes Maenofferen, Blaenau Ffestiniog, safle diwydiannol ar y Marian Mawr yn Nolgellau a Safle'r Hafan, Pwllheli. Sefydlwyd y Coleg Trydyddol Newydd ar sail Coleg Addysg Bellach (Coleg Meirionnydd) sef safle'r Coleg yn Nolgellau bellach, a unwyd gyda Choleg Glynllifon yn 1992 wrth baratoi ar gyfer y datblygiad Trydyddol. Mae safleoedd y Coleg yn Nolgellau a Phwllheli yn darparu ystod helaeth o gyrsiau o Lefel A a Galwedigaethol. Yn hanesyddol mae safle Glynllifon wedi arbenigo mewn cyrsiau yn ymwneud â diwydiannau'r tir.
- 1.1.2 Un o'r prif resymau dros sefydlu'r Coleg oedd er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg a dwyieithog i fyfyrwyr ôl 16 yn ardaloedd Meirion a Dwyfor. Gweithgaredd greiddiol y Coleg yw darparu addysg a hyfforddiant i fyfyrwyr 16-19 oed ond mae'r Coleg yn ymroddedig i gwrdd ag anghenion y cyhoedd dros 19 oed yn ogystal. Mae Coleg Meirion-Dwyfor yn cynnal darpariaeth Dosbarthiadau Nos/ cymunedol mewn trefi a phentrefi yn y gymuned. Mae Adran Hyfforddi y Coleg yn gyfrifol am Hyfforddiant Gwaith Ganolog a chyrsiau byrion i gyflogwyr.
- 1.1.3 Yn 1993, yn ogystal â'i sefydlu yn Goleg Trydyddol, dechreuodd Coleg Meirion-Dwyfor weithredu fel Corfforaeth annibynnol yn hytrach na chael ei weinyddu gan Awdurdod Addysg Gwynedd.
- 1.1.4 Yng Ngholeg Meirion-Dwyfor diffinir cwrs dwyieithog fel cwrs lle mae'r un pwyslais gweithredol ar y Gymraeg a'r Saesneg o ran yr addysgu. Pan fo nodiadau, asesu a phrofiad gwaith yn rhan o'r cwrs yna byddant ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.

1.2 Cenhadaeth y Coleg

Bydd Coleg Meirion-Dwyfor yn darparu ystod eang o addysg a hyfforddiant uchel ei safon er mwyn cwrdd ag anghenion presennol a dyfodol cymuned wledig a dwyieithog, a thrwy hynny hyrwyddo datblygiad unigolion, a datblygiad cymunedol ac economaidd.

Ymhlith Datganiadau Gwerthoedd y Coleg mae "parchu a hybu dwyieithrwydd ym mhob agwedd yn ei waith".

Mae "datblygu ei gyrsiau dwyieithog yn barhaus, gan arwain datblygiadau yn y maes hwn, yn lleol ac yn genedlaethol" yn un o Amcanion Strategol y Coleg.

- 1.3** Amcanion sylfaenol Coleg Meirion-Dwyfor ynglŷn â'i darpariaeth ieithyddol yw:-
- sicrhau y gall unrhyw un sydd yn defnyddio neu'n derbyn gwasanaethau'r Coleg wneud hynny trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg .
 - datblygu gallu myfyrwyr i fod yn hyderus ddwyieithog er mwyn iddynt allu bod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni.

1.4 Polisïau a Mentrau Newydd

- 1.4.1 Mae Coleg Meirion-Dwyfor yn ymrwymo i sicrhau bod polisïau a mentrau newydd yn gyson â'r Cynllun hwn, heb ei danseilio mewn unrhyw ffordd, ac yn ymrwymo i ymgynghori â Bwrdd yr Iaith Gymraeg ymlaen llaw ynglŷn â'i fwriadau pe bai hynny yn effeithio ar y Cynllun Iaith hwn.
- 1.4.2 Bydd Coleg Meirion-Dwyfor yn sicrhau bod staff ac ymgynghorwyr sydd yn llunio polisïau yn ymwybodol o'r Cynllun Iaith a chyfrifoldebau'r Coleg o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg. Darperir hyfforddiant a chanllawiau desg ysgrifenedig i staff perthnasol. Bydd y Cydlynnydd Dwyieithrwydd yn sicrhau bod gan bob aelod staff y Coleg gopi o'r Cynllun Iaith.
- 1.4.3 Bydd Coleg Meirion Dwyfor yn ymgynghori ymlaen llaw â Bwrdd yr Iaith Gymraeg ynglŷn ag unrhyw fwriadau a fydd yn effeithio ar Gynlluniau Iaith sefydliadau eraill.
- 1.4.4 Bydd cyfeiriad at y Cynllun Iaith mewn unrhyw gynlluniau, mentrau neu bolisïau o eiddo'r Coleg lle bo hynny'n angenrheidiol.
- 1.4.5 Bydd mesurau'r Cynllun Iaith yn cael eu gweithredu wrth roi polisïau a mentrau newydd ar waith, ac ymrwymir i asesu canlyniadau ieithyddol unrhyw bolisïau a mentrau newydd wrth eu llunio. Ni roddir polisïau na mentrau newydd ar waith heb iddynt gydymffurfio gyda'r Cynllun Iaith. Ymrwymir i asesu canlyniadau ieithyddol unrhyw bolisïau a mentrau newydd cyn ei lansio ac wrth werthuso gweithrediad y polisïau/mentrau newydd.
- 1.4.6 Bydd polisïau a mentrau newydd yn hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r Gymraeg pa bryd bynnag y bydd hynny'n bosibl, ac yn barhaus yn cadw'r sefydliad at yr egwyddor o gydraddoldeb yn llawn yn y ddwy iaith bob cyfle a ddaw.
- 1.4.7 Bydd mentrau newydd yn cynnwys cyrsiau, rhaglenni addysgu a hyfforddi newydd neu fodiwlau newydd oddi mewn i gyrsiau. Yn ogystal bydd yn cynnwys agweddau o weinyddiaeth y Coleg neu ad-drefnu gwasanaethau.

1.5 Cynllunio a Chyflwyno Gwasanaethau

- 1.5.1 Bydd Pennaeth y Coleg, Yr Uwch Dîm Rheoli, Penaethiaid Cyfadran ac Adran a Chydlynwyr yn hollol ymwybodol o ofynion y Cynllun Iaith, a dylent sicrhau bod y gofynion hyn yn cael eu hadlewyrchu yn y gwasanaeth a ddarperir gan y Coleg i'w fyfyrwyr ac i aelodau eraill y cyhoedd, ac mewn gwaith a wneir ar eu rhan, neu ar ran y Coleg gan

unigolion neu gyrff eraill. Byddant hefyd yn gyfrifol am sicrhau gwasanaeth Cymraeg neu Ddwieithog o fewn y Coleg a'i Gyfadrannau. Bydd gweithredu gofynion y Cynllun Iaith yn ran o gyfrifoldebau pob aelod o staff y Coleg.

- 1.5.2 Mae Panel Dwyieithrwydd sydd yn un o grwpiau ansawdd y Coleg yn cyfarfod o leiaf unwaith bob tymor o dan gadeiryddiaeth Pennaeth y Coleg. Ceir cynrychiolaeth ymhlith aelodau'r Panel o bob un o Gyfadrannau'r Coleg a'r Adran Hyfforddi. Cynrychiolir y Staff Cefnogi ar y Panel gan y Prif Gyfieithydd. Yn ogystal gellir gwahodd aelod(au) i'r panel o du allan y Coleg - mae Cyfarwyddwr Sgiliaith yn aelod o'r Panel presennol.
- 1.5.3 Mae gwybodaeth am wasanaethau'r Coleg yn dilyn. Ceir amserlen ar gyfer datblygiadau newydd, neu ddatblygiadau nad ydynt eisoes yn weithredol yn yr amserlen.

1.6 Monitro'r Cynllun

- 1.6.1 Bydd Cydlynnydd Dwyieithrwydd y Coleg yn gyfrifol am fonitro'r Cynllun a'i weithrediad, ei adolygu ac adrodd yn flynyddol ar y cynnydd i Banel Dwyieithrwydd, Bwrdd Academaidd, Pennaeth a Chorfforaeth y Coleg.
- 1.6.2 Bydd y Coleg yn ceisio barn ei fyfyrwyr yn flynyddol am wasanaeth Cymraeg a Dwyieithog y Coleg drwy gyfrwng holiaduron Canfyddiad Myfyrwyr a thrwy gynnal grwpiau trafod myfyrwyr.
- 1.6.4 Dylai unrhyw un sy'n dymuno cysylltu â'r Coleg parthed cynnwys y Cynllun hwn gysylltu gyda :

Mr. Irfon Roderick
Cydlynnydd Dwyieithrwydd
Coleg Meirion-Dwyfor
Ffordd Tŷ'n y Coed
Dolgellau
Gwynedd
LL40 2SW

☎ 01341 422827
ffacs 01341 42393
i.roderick@meirion-dwyfor.ac.uk

2. Natur leithyddol Yr Ardal

2.1 Mae Coleg Meirion-Dwyfor yn gwasanaethu ardaloedd lle mae canran uchel o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg.

2.2 Dalgylchoedd safleoedd Dolgellau a Phwllheli.

Dalgylch naturiol Safle Dolgellau yw'r ardaloedd De Meirionnydd, Penllyn ac Ardudwy, er fe ddaw myfyrwyr rhai meysydd galwedigaethol (Adeiladwaith, Arlwyo, Trin Gwallt a Harddwch) o Ddwyfor. Yn ogystal fe ddaw nifer fechan o fyfyrwyr o ardaloedd cyfagos ym Mhowys. Yn ôl canlyniadau cyfrifiad 2001 cyfanswm poblogaeth De Meirionnydd, Penllyn ac Ardudwy (y nifer 3 oed a throsodd) yw 31,846 gyda 19,972 (63%) yn gallu siarad Cymraeg.

Dalgylch naturiol safle Pwllheli yw Dwyfor. Poblogaeth Dwyfor yn ôl canlyniadau cyfrifiad 2001 yw 26,001, (3 oed a throsodd), gyda 19,021 (73%) yn gallu siarad Cymraeg.

2.3 Dalgylch Glynllifon

Prif ddalgylch safle Glynllifon yw Gwynedd ac Ynys Môn er fe ddaw rhai myfyrwyr ymhell o du allan y ffiniau hyn. Gyda phoblogaeth (3 oed a throsodd) Gwynedd yn 112,800 gyda 77,843 (69%) yn gallu siarad Cymraeg, a phoblogaeth Ynys Môn yn 64,679 gyda 38,891 (60%) yn gallu siarad Cymraeg fe rydd hyn gyfanswm poblogaeth (3 oed a throsodd) o 177,479 gyda 116,734 (66%) yn gallu siarad Cymraeg.

Ardal	Poblogaeth, 3 oed a throsodd:	Nifer yn y grŵp oedran:		Y nifer 3 oed a throsodd sy'n gallu:		Y nifer yn y grŵp oedran sy'n gallu siarad Cymraeg:	
		3 – 15 oed	16 – 64 oed	siarad Cymraeg	siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg	3 – 15 oed	16 – 64 oed
Meirionnydd	31,846	5,095	19,498	19,972 (63%)	17,471 (55%)	4,540 (89%)	11,503 (59%)
Dwyfor	26,001	4,074	15,741	19,021 (73%)	17,193 (66%)	3,771 (93%)	11,363 (72%)
Gwynedd	112,800	18,578	72,019	77,843 (69%)	68,381 (61%)	16,466 (89%)	47,280 (63%)
Môn	64,679	10,871	41,205	38,891 (60%)	32,669 (51%)	8,115 (75%)	23,911 (58%)
Powys*	9023	1558	5662	3831 (44%)	3276 (36%)	944 (61%)	2128 (38%)

* Cymunedau Carno, Castell Caereinion, Glantwymyn, Llanbrynmair, Llanerfyl, Llanfaircaereinion, Machynlleth, Meifod a Thregynon.

Ffynhonnell y data: tabl WLP01

<http://www.statistics.gov.uk/STATBASE/ssdataset.asp?vlnk=7559>

3. Disgwyliadau Cymdeithas a Gofynion yr Economi

3.1.1 Mae'r Coleg wedi ei leoli mewn ardal wledig lle mae pwyslais mawr ar dwristiaeth a diwydiannau'r tir.

3.1.2 Gwelir allfudo arwyddocaol ymhlith pobl ifanc o oed gweithio sydd wedi eu magu a'u haddysgu yn yr ardal, gan nad yw'r cyfleon cyflogaeth lleol yn eang, ac mae tuedd fod y rhai sydd â'r cymwysterau addysgol gorau yn gadael yr ardal.

3.1.3 Mae'r rhan hwn yn amlinellu materion cyflogaeth dalgylch y Coleg gyda chymhariaeth gyda'r sefyllfa genedlaethol Cymru. Er bod economi Gogledd Orllewin Cymru yn parhau i fod yn eithaf disymud, mae'r tabl canlynol yn rhoi'r diweddaraf am y Dangosyddion Cymdeithasol ac Economaidd Allweddol.

Dangosydd	Dalgylch y Coleg		Ffigwr cymharol yng Nghymru	
Poblogaeth	117,500 (Gwynedd)		2,938,000	
	Dynion	56,700	Dynion	1,425,600
	Merched	60,800	Merched	1,512,400
Y newid yn y boblogaeth ers 1991 (%)	+ 1.6%		+ 1% (+ 4.1% yng Ngogledd Cymru)	
Tir	830 milltir sgwâr		8,017 milltir sgwâr	
Cyfradd diweithdra	3.7% (Gwynedd)		5%	
Canran cydbwysedd rhwng y ddau ryw yn y gweithlu	Dynion	42%	Dynion	48%
	Merched	58%	Merched	52%
Canran y rhai mewn gwaith rhan-amser	40.1% (Gwynedd)		33.8%	
Twf disgwyliedig mewn cyflogaeth	0.5% y flwyddyn (ar gyfartaledd)		0.7% y flwyddyn (Cymru)	
Canran y Gweithlu	Cynhyrchu	10.2%	16.1%	
	Adeiladu	3.4%	4.2%	
	Gwasanaethau	84.9%	77.9%	
	Dosbarthu, Gwestai a Bwyta	28.2%	23.5%	
	Cludo a Chyfathrebu	2.9%	4.6%	
	Cyllid, TG a gweithgareddau busnes eraill	7.7%	11.9%	
	Gweinyddiaeth gyhoeddus, addysg a iechyd	38.8%	32.8%	
	Gwasanaethau eraill	7.3%	5%	
	Yn ymwneud â Thwristiaeth	12.3%	8.1%	
Canran y rhai sy'n weithredol yn economaidd sy'n hunangyflogedig	12.7%		8.4%	
Canran y rhai a gyflogir mewn micro-fusnesau (<10)	93.8%		93.8%	

Canran y rhai a gyflogir mewn busnesau bach (sy'n cyflogi 10 – 49)	3.3%	4.2%
Canran y rhai a gyflogir mewn busnesau canolig (sy'n cyflogi 50 – 249)	0.9%	1.0%
Canran y rhai a gyflogir mewn busnesau mawr (sy'n cyflogi 250+)	2.1%	0.9%
Cyflog wythnosol gros ar gyfartaledd	£360.20 (Gwynedd)	£416.00
Tâl fesur awr	£9.40	£10.50
Sectorau y bernir eu bod yn feysydd cyflogaeth addawol yn y tymor byr a'r tymor hirach	Disgwylir mai'r sector a fydd yn tyfu gyflymaf yw gwaith peirianyddol, yn enwedig offer trydanol ac optegol.	Disgwylir twf bach yn y sector cynhyrchu peiriannau ac offer. Disgwylir twf yn y sector offer trydanol ac optegol hefyd (6%)
Sectorau y bernir eu bod "o bosibl yn agored i niwed" yn y tymor byr (1997-2007)	Adeiladu	Cynhyrchu, Amaethyddiaeth, Hela, Coedwigaeth a Physgota, Cloddio dan ddaear ac mewn chwareli.
Newidiadau a ddisgwylir mewn galwedigaethau rhwng 1996 a 2006	Twf mewn: Dosbarthu, gwestai a bwytai Bancio, cyllid ac yswiriant Gostyngiad mewn: Adeiladu	Twf mewn: Iechyd, Hamdden, Gwerthu a Chefnogi Gwasanaethau Gostyngiad mewn: Cynhyrchu ad Adeiladu
Canran o'r rhai sydd mewn gwaith sy'n derbyn hyfforddiant	10% (Gwynedd)	11.5%
Canran heb gymhwyster	24% (Gwynedd)	21%
Canran yr rhai sydd mewn oedran gweithio sydd ag anawsterau llythrennedd	28% (Gwynedd)	28%
Canran y rhai sydd mewn oedran gweithio sydd ag anawsterau rhifedd	31% (Gwynedd)	25%
Canran y rhai sydd mewn oedran gweithio sydd â chymwysterau Lefel 2 neu uwch	66.1% (Gwynedd)	60.3%
Cymwysterau'r boblogaeth – Lefel 4 neu uwch	26.6% (Gwynedd)	22.5%

Gwybodaeth arall o bwys:

- Mae ~ 80% o'r gweithlu yng Ngwynedd yn gweithio mewn tri maes (Gwasanaethau Cyhoeddus, Twristiaeth ac Amaethyddiaeth). Mae digwyddiadau diweddar wedi effeithio'n sylweddol ar ddau o'r meysydd hyn.
- Yn ogystal, roedd ~ 50% o'r swyddi a hysbysebwyd mewn Canolfannau Gwaith yn swyddi yn y tri maes uchod
- Mae traean gweithlu Gwynedd yn gweithio i 3 sefydliad (bob un ohonynt yn y sector cyhoeddus)

- Mae 19% o gyflogwyr wedi adrodd nad oes gan eu gweithwyr presennol yr holl sgiliau y mae arnynt eu hangen i gyflawni amcanion eu busnes
- Nid oes gan un o bob tri pherson 19 mlwydd oed NVQ Lefel 2 na chymhwyster cyfatebol (h.y. 5 neu fwy TGAU gradd A – C neu GNVQ canolradd).

Mae arolwg **Sgiliau Dyfodol Cymru 2003** yn tynnu sylw at faterion sy'n bwysig i Goleg Meirion-Dwyfor:

- Mae cyflogwyr yn rhagweld y bydd lefelau sgiliau yn codi yn y dyfodol
 - Mae'r mwyafrif sylweddol o gyflogwyr yn ystyried bod llythrennedd a rhifedd yn bwysig
 - Mae angen meithrin sgiliau Gwasanaeth i Gwsmeriaid o fewn y system addysg
 - Bydd y galw am fwy o sgiliau ym maes TGaCh; Arweinyddiaeth a rheolaeth; sgiliau o ran trefnu eich dysgu eich hun a'r iaith Gymraeg
 - Dylid gofalu osgoi trap sgiliau isel yng Nghymru
 - Amser a chost yw'r rhwystrau pennaf yn achos cyflogwyr sy'n dymuno hyfforddi eu staff
 - Nodir bod bylchau mewn sgiliau ym meysydd TGaCh a Chyfathrebu
- 3.1.4 Mae mwy a mwy o gyrff cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat yn ehangu eu gwasanaeth Cymraeg a dwyieithog, felly mae'n angenrheidiol i Golegau Addysg Bellach ddarparu gweithlu sydd yn medru gweithredu'n broffesiynol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Craidd 'gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru' a ddarperir gan Golegau o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 yw addysg a hyfforddiant.
- 3.1.5 Mae'n bwysig felly fod y Coleg yn edrych ar y meysydd hyn o ran darpariaeth gweithwyr sydd yn meddu sgiliau dwyieithog yn y gweithle. Fe ymdrinia adran darpariaeth ieithyddol y Coleg â'r meysydd hyn yn nes ymlaen yn y Cynllun.

4. Safonau Gwasanaethau Cymraeg a Dwyieithog

- 4.1.1 Mae gan y cyhoedd, yn cynnwys myfyrwyr y Coleg, yr hawl i dderbyn neu ddefnyddio gwasanaethau perthnasol y Coleg ac i gyfathrebu â'r Coleg yn yr iaith o'u dewis, boed hynny yn Gymraeg neu Saesneg.
- 4.1.2 Mae mwyafrif y staff addysgu yn rhugl ddwyieithog ac yn medru darparu addysg a hyfforddiant yn ddwyieithog. Yn yr un modd mae mwyafrif y staff cefnogi yn rhugl ddwyieithog ac yn medru cyflawni eu dyletswyddau yn ddwyieithog. Cyflwynir canlyniadau arolwg sgiliau iaith staff dysgu yn atodiad 1 a chanlyniadau arolwg sgiliau iaith staff cefnogi yn atodiad 2.
- 4.1.3 Mae staff Cefnogi Busnes sy'n dod wyneb yn wyneb â'r cyhoedd, gan gynnwys staff derbynfeydd yn ddwyieithog, a gallant ymateb i ymholiadau yn y ddwy iaith.

- 4.1.4 Bydd safon y gwasanaeth a ddarperir gan y Coleg cyn uchod yn y Gymraeg a'r Saesneg, yn unol ag amcanion Siarter y Dinesydd a bydd cysondeb yn safon y gwasanaeth a gyflwynir ar safleoedd gwahanol y Coleg.
- 4.1.5 Bydd y sawl sydd yn gyfrifol am gyflawni gwasanaethau i'r cyhoedd ar ran y Coleg yn sicrhau fod ganddynt staff a all gyfathrebu yn Gymraeg a Saesneg.
- 4.1.6 Bydd y Coleg yn gosod safonau penodol wrth ddarparu gwasanaeth Cymraeg wrth ddelio gyda'r cyhoedd.

4.2 Monitro Safon y Gwasanaeth

Bydd y safonau hyn ac effeithiolrwydd cyflwyno'r gwasanaeth yn cael eu monitro'n rheolaidd, ac fe gynhwysir gwybodaeth am hynny yn yr adroddiad blynyddol ar weithrediad y Cynllun Iaith.

4.3 Awdurdod

Mae'r ymrwymïadau a'r trefniadau a nodir yng Nghynllun Iaith Coleg Meirion-Dwyfor wedi eu cymeradwyo ar lefel uchaf Coleg Meirion-Dwyfor a byddant yn dwyn awdurdod llawn y sefydliad wrth eu gweithredu.

4.4 Monitro Gweithrediad y Cynllun

Bydd y Coleg yn cyhoeddi gwybodaeth ynglŷn â'r mesur o lwyddiant a gafwyd wrth geisio cyrraedd y targedau a osodwyd yn y Cynllun Iaith yn yr adroddiad monitro blynyddol. Cyhoeddwyd gwybodaeth am safonau gwasanaeth Cymraeg a dwyieithog Coleg Meirion-Dwyfor yn ei adroddiad blynyddol o 2000 ymlaen.

- 4.4.1 Cyflwynir adroddiad blynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn nodi gweithrediad y Cynllun Iaith hwn. Pe byddai angen argymhell newidiadau i'r Cynllun neu'r amserlen, bydd y Coleg yn ymgynghori â Bwrdd yr Iaith Gymraeg cyn gweithredu.

4.5 Cyhoeddusrwydd i'r Cynllun

Bydd y Coleg yn sicrhau cyhoeddusrwydd i'r Cynllun Iaith, a gwasanaethau Cymraeg a Dwyieithog yn y wasg, ac mewn ymgyrchoedd marchnata a rhai o gyhoeddiadau'r Coleg, a thrwy'r ymgyrchoedd marchnata yn sicrhau bod y gymuned yn llawn ymwybodol o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg y Coleg

Mae pob cyflwyniad staff newydd neu gyfweiliadau yn cynnwys creu ymwybyddiaeth lawn o gynnwys a gofynion y Cynllun Iaith. Bydd pob ymgeisydd am swydd yn y Coleg yn derbyn copi o Gynllun Iaith y Coleg.

Mae'r Cynllun Iaith ar gael ar wefan ac ar fewnrwyd y Coleg gyda chopiau papur yn llyfrgelloedd y safleoedd.

4.6 Trefn Gwynion

Croesawir awgrymiadau gan y cyhoedd ynglŷn â dulliau o wella'r gwasanaethau a gynigir gan Goleg Meirion-Dwyfor. Pe bai unrhyw gwynion gan y cyhoedd ynghylch y Cynllun Iaith, bydd Coleg Meirion-Dwyfor yn ymateb, ar ôl ymchwilio a dadansoddi natur y cwynion. Gellir cael copi o drefn gwyno y Coleg drwy gysylltu ag unrhyw un o safleoedd y Coleg.

Yr aelod o dîm rheoli Coleg Meirion-Dwyfor sydd yn gyfrifol am oruchwylio gweithrediad y Cynllun hwn yw:

***Dr. Ian J. Rees
Pennaeth a Phrif Weithredwr
Coleg Meirion-Dwyfor
Ffordd Tŷ'n y Coed
Dolgellau
Gwynedd LL40 2SW***

5 Natur leithyddol y Coleg yn Gyffredinol

- 5.1 Mae mwyafrif helaeth y myfyrwyr a ddaw i Goleg Meirion-Dwyfor yn 16 oed wedi eu haddysgu yn ysgolion Awdurdod Addysg Gwynedd. Nod polisi iaith diwygiedig Awdurdod Addysg Gwynedd yw datblygu dwyieithrwydd yr unigolyn. Mae Coleg Meirion-Dwyfor yn ymrwymo i barhau'r datblygiad hwn.

Y nifer siaradwyr Cymraeg ymhlith myfyrwyr y Coleg

Mae mwyafrif o fyfyrwyr y Coleg yn medru siarad Cymraeg. Ymhlith y siaradwyr Cymraeg cynhwysir nifer uchel o ddysgwyr llwyddiannus yn ogystal â'r siaradwyr cynhenid. Gwelir o'r data a gyflwynir ar gyfer safleoedd Dolgellau a Phwllheli bod cyfran uchel o fyfyrwyr y Coleg sydd â chymhwyster TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf wedi datgan mai Saesneg yw eu mamiaith. Nid yw hyn yn ymddangos yn y data ar gyfer safle Glynllifon, o leiaf yn y blynyddoedd sydd o dan sylw.

Mae'r nifer uchel o fyfyrwyr mamiaith Saesneg gyda chymhwyster TGAU Iaith Gyntaf yn ganlyniad i Bolisi Iaith Addysg Gwynedd o godi'r niferoedd sy'n astudio TGAU Iaith Gyntaf, ac yn arwyddocaol o'r mesur uchel o lwyddiant gan ysgolion cynradd ac uwchradd y dalgylch sydd wedi caniatáu cymaint o fyfyrwyr mamiaith Saesneg i "groesi'r bont".

Gan ddefnyddio *myfyriwr sydd â chymhwyster TGAU Iaith Gyntaf* fel diffiniad o siaradwr Cymraeg gwelwn fod 87% o fyfyrwyr Coleg Meirion-Dwyfor yn 2003-04 yn siaradwyr Cymraeg, (myfyrwyr y flwyddyn gyntaf a myfyrwyr yn eu hail flwyddyn). Ni all ddata'r Coleg gymryd i ystyriaeth

y gwahaniaeth yng ngallu unigolyn yn y Gymraeg sy'n deillio o wahaniaeth cefndir teuluol a chymdeithasol.

Data siaradwyr Cymraeg – crynodeb

Ffynhonnell: MIS, Quals on entry.

2003-2004 Myfyrwyr yn eu blwyddyn gyntaf

Safle	Siaradwyr Cymraeg: Myfyrwyr TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf	Myfyrwyr gyda TGAU Cymraeg Ail Iaith	Cyfanswm	Myfyrwyr TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf – Canran
Dolgellau	164	39	203	81
Glynlifon	19	0	19	100
Pwllheli	121	7	128	95
Coleg cyfan	304	46	350	87

2002-2003 Myfyrwyr yn eu hail flwyddyn

Safle	Siaradwyr Cymraeg: Myfyrwyr TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf	Myfyrwyr gyda TGAU Cymraeg Ail Iaith	Cyfanswm	Myfyrwyr TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf – Canran
Dolgellau	165	51	216	76
Glynlifon	25	6	31	81
Pwllheli	137	8	145	94
Coleg cyfan	327	65	392	83

- 5.2 Mae angen i'r Coleg dderbyn fod amryw o'r myfyrwyr yn parhau heb gyrraedd sgiliau oed berthnasol cyfochrog yn y ddwy iaith yn 16 oed wedi iddynt fynychu ysgolion y dalgylch. Yn ogystal, nid yw pob un o'r myfyrwyr wedi dod o ysgolion y Sir - bydd rhai yn dod i Goleg Meirion-Dwyfor wedi cyfnod byr yn unig yn ysgolion y Sir, ac eraill wedi symud i'r ardal yn 16 a heb gael unrhyw addysg Gymraeg. Bydd oedolion sydd wedi mewnfudo a heb feddu unrhyw sgiliau yn y Gymraeg yn mynychu'r Coleg ac yn dymuno derbyn addysg/hyfforddiant yn Saesneg. Ar hyn o bryd rhoddir y dewis i fyfyrwyr a dderbynnir yn 16+ ynglŷn â pha iaith a ddewisant i ddilyn eu haddysg ynddi yn y Coleg. Mabwysiadwyd trefn o gynghori myfyrwyr yn fwy penodol ar gychwyn eu gyrfa yn y Coleg ynglŷn â'u hanghenion dilyniant ieithyddol. Bydd y Coleg yn sicrhau wrth gynefino myfyrwyr newydd eu bod yn llawn ymwybodol o ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg y Coleg ac o fanteision sgiliau dwyieithog.

- 5.3 Mae rhai myfyrwyr o gefndiroedd Cymraeg eu hiaith hefyd yn dymuno addysg trwy'r Saesneg. Bydd nifer o'r myfyrwyr yn cael eu cyflogi neu'n dewis parhau eu hastudiaethau y tu allan i Gymru ac y mae angen sicrhau eu bod hwythau yr un mor abl i weithio ac astudio trwy gyfrwng y Saesneg. Ond mae angen iddynt hwythau gofio eu bod yn aelodau o gymdeithas ddwyieithog Gymraeg a Saesneg yn ystod eu gyrfa yn y Coleg ac wrth fyw yn y gymdeithas leol. Mae angen sgiliau dwyieithog Cymraeg a Saesneg ar y myfyrwyr hynny sydd yn dymuno dychwelyd i weithio mewn ardal ddwyieithog wedi cyfnod mewn Prifysgol y tu allan i Gymru hefyd.
- 5.4 Mae Coleg Meirion-Dwyfor yn derbyn crynswth ei fyfyrwyr o ysgolion sydd wedi eu diffinio yn wahanol yn ieithyddol, a gall fod anghenion cyfnerthu gwahanol ar fyfyrwyr sydd yn dod i'r Coleg o wahanol ysgolion sydd yn bwydo'r Coleg.
- 5.5 Y mae Awdurdod Addysg Gwynedd yn diffinio Ysgolion Botwnnog, Eifionydd, Glan y Môr, Y Berwyn a'r Moelwyn yn ysgolion mewn dalgylchoedd Cymraeg, tra bod ysgolion Uwchradd Tywyn, Ardudwy a'r Gader wedi eu diffinio fel dalgylchoedd cymysg ieithyddol. Derbynnir hefyd rai disgyblion o ddalgylchoedd Ysgol Bro Ddyfi i safle'r Coleg yn Nolgellau ac o ddalgylch Ysgol Dyffryn Nantlle i Safle Pwllheli. Derbynnir rhai myfyrwyr sydd wedi mynychu Ysgolion Preifat mewn ardaloedd eraill hefyd.
- 5.6 Mae safle Coleg Meirion-Dwyfor, Glynllifon oherwydd natur arbenigol y cyrsiau yn cael ei fwydo gan ysgolion Awdurdod Addysg Gwynedd a Môn a thu hwnt i hynny, ardaloedd sydd bellach yng nghynghorau Dinbych, Fflint, Wrecsam, rhannau o Bowys, Glannau Merswy a Wirral ac Iwerddon.
- 5.7 Wrth ddelio gyda myfyrwyr 19+, rhaid ymateb i anghenion y myfyrwyr unigol.

6. Y Ddarpariaeth Bresennol o Safbwynt, Dysgu Addysgu a Hyfforddiant

- 6.1 Geiriad polisi iaith presennol Coleg Meirion-Dwyfor parthed y CWRICWLWM yw:
- 6.1.1 Nod y Coleg yw rhoi cyfle i bob myfyriwr ddilyn y rhan helaethaf o'i addysg yn iaith ei ddewis gan ddatblygu ei sgiliau dwyieithog.
- 6.1.2 Ar hyn o bryd mae'n bosibl astudio pob pwnc Lefel A, y mae gan Gyd-Bwyllgor Addysg Cymru faes llafur addas ar ei gyfer, drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog - o ganlyniad i benodi staff gyda'r cymwysterau addas a buddsoddi'n sylweddol mewn paratoi adnoddau addysgu. Bydd y Coleg yn rhoi pob anogaeth a chefnogaeth bosibl i

fyfyrwyr ddilyn eu hastudiaethau yn iaith eu dewis, neu'n ddwyieithog drwy gyfrwng cyngor tiwtor a'r gwasanaeth gyrfaoedd.

- 6.1.3 Bydd y Coleg yn paratoi deunyddiau addysgu dwyieithog. Nod y Coleg yw i'r holl adnoddau addysgu fod ar gael yn ddwyieithog. Rhwir cefnogaeth gyfieithu i gynorthwyo'r staff gyda'r dasg hon, ond fe gymer beth amser, yn naturiol i gyrraedd y nod hwn yn gyflawn. Mewn perthynas ag adnoddau addysgu a gynhyrchir o fewn y Coleg, bydd y fersiynau Cymraeg o'r un ansawdd â'r fersiynau Saesneg cyfatebol.
- 6.1.4 Er bod darpariaeth ddwyieithog helaeth yn y Coleg eisoes bydd y Coleg yn targedu meysydd penodol fel blaenoriaethau ar gyfer datblygu pellach, ac yn sgîl anghenion newidiadau cwricwlwm.
- 6.1.5 Bydd y Coleg yn dyrannu cyfran o'i gyllideb flynyddol ar gyfer cynhyrchu deunyddiau addysgu dwyieithog. Bydd bob tîm astudio yn gwneud arolwg blynyddol o'i sefyllfa mewn perthynas â'r ddarpariaeth ddysgu ddwyieithog. Cyflwynir canlyniadau'r arolwg i Bennaeth y Coleg a bydd y Pennaeth wedyn yn trafod gydag aelodau'r Gorfforaeth. Bydd y timau'n gosod targedau bob blwyddyn i ymestyn eu darpariaeth ddwyieithog nes y bydd y ddarpariaeth yn llawn yn y ddwy iaith. Bydd y Coleg yn datblygu darpariaeth sgiliau astudio a fydd ar gael i'r holl fyfyrwyr a byddant hwythau yn eu tro yn cael eu hannog i ddefnyddio'r cyfleuster er mwyn gwella eu gallu ieithyddol.
- 6.1.6 Lle bo hynny'n bosibl ac yn hyfyw bydd y Coleg yn cynnig elfennau o ffrydio o fewn fframwaith ddwyieithog.

6.2 ASESU

- 6.2.1 Bydd y Coleg ar bob achlysur yn derbyn gwaith myfyrwyr sydd i gael ei asesu'n fewnol yn Gymraeg neu yn Saesneg. Nid yw'n bosibl i bob aseiniad neu arholiad allanol gael ei gwblhau yn Gymraeg neu Saesneg - nid yw pob cwrs yn cael ei gynnig yn Gymraeg gan y Byrddau Arholi. Gweler manylion ynglŷn â pha gyrsiau a phynciau sydd yn cynnig aseiniadau Cymraeg a dwyieithog yn Adranx.x .
- 6.2.2 Bydd myfyrwyr yn cael eu hannog i ymgymryd â rhan o'u hasesiad drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg gan ddatblygu eu sgiliau dwyieithog, drwy drafodaeth â'u tiwtoriaid pwnc/cwrs.
- 6.2.3 Bydd y Coleg yn dwyn pwysau ar y cyrff dyfarnu/arholi (megis Edexcel) sy'n penodi dilyswyr allanol i gydnabod pwysigrwydd sicrhau gwasanaeth dilyswyr fydd â'r gallu i drafod gwaith llafar ac ysgrifenedig y myfyrwyr yn ddwyieithog.
- 6.2.4 Bydd y Coleg yn dwyn pwysau ar fyrdau arholi a chyrff arwain i baratoi papurau arholiad a deunyddiau asesu eraill yn y ddwy iaith.

Ein nod yw cael papurau arholiad dwyieithog yn y meysydd y mae'r Coleg yn eu cynnig.

- 6.3** Gyda gweithrediad y Cynllun Iaith hwn, bydd Coleg Meirion-Dwyfor yn cryfhau ei bolisi iaith cwricwlaidd drwy fabwysiadu'r canlynol:
- 6.3.1 Nod Coleg Meirion-Dwyfor yw darparu addysg o'r ansawdd uchaf posibl i'w holl fyfyrwyr er mwyn iddynt fod yn aelodau llawn o gymdeithas ddwyieithog.
- 6.3.2 Mae Cynllun Iaith Addysg Cyngor Gwynedd yn rhagweld y bydd canran uchel o ddisgyblion yr Awdurdod yn sefyll arholiad Cymraeg Iaith Gyntaf yng Nghyfnod Allweddol 4. Ym Meirion a Dwyfor bydd y cyfrifoldeb o sicrhau dilyniant i'r myfyrwyr hyn yn 16+ yn syrthio ar Goleg Meirion-Dwyfor.
- 6.3.3 Penderfynir ar flaenoriaethau ehangu a chryfhau darpariaeth Cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog yn ôl anghenion y myfyrwyr, anghenion y cyrsiau, ac anghenion yr economi a chyflogwyr. Bydd Tiwtoriaid Cwrs, Penaethiaid Cyfadrannau ac Adran, Y Panel Dwyieithrwydd, Y Bwrdd Academaidd a'r Uwch Dîm Rheoli yn cymryd rhan yn y trafodaethau hyn.

Yr Uwch Dim rheoli sydd yn gyfrifol am awdurdodi mabwysiad darpariaethau newydd a Phenaethiaid y Cyfadrannau sy'n gyfrifol am weithredu'r newidiadau. Mae gan y Panel Dwyieithrwydd rôl fonitro, rôl cynghori, ac fel pob pwyllgor arall rôl creu syniadau newydd. Mae gan y Bwrdd Academaidd rôl gloriannu'r angen am ddarpariaeth newydd gan gynnwys darpariaeth ddwyieithog a gallant gynnig cyngor i'r Uwch Dim Rheoli.

- 6.3.4 Mae'r Coleg yn targedu meysydd cwricwlaidd yn flynyddol i sicrhau twf yn y ddarpariaeth, neu ddarpariaeth newydd o safbwynt adnoddau Cymraeg neu ddwyieithog.

6.4 Cyfadrannau'r Coleg

- 6.4.1 Rhennir y Coleg yn chwe chlyfadran, sef y Gyfadran Wyddoniaeth a Thechnoleg, y Gyfadran Gwasanaethau i Bobl, y Gyfadran Busnes a Hamdden, Cyfadran Gweithgareddau'r Tir, y Gyfadran Addysg Barhaus a Chymunedol, a'r Gyfadran Dyniaethau, Ieithoedd a Chelfyddydau Mynegiannol. Yn ogystal y mae gan y Coleg Adran Hyfforddiant Gwaith-ganolog.
- 6.4.2 Bydd y Cyfadrannau'n gweithredu mewn dulliau a fydd yn adlewyrchu Datganiad Cenhadaeth, Cynllun Strategol, Cynllun Iaith ac ethos y Coleg, sef hybu cefndir Cymreig a natur y gymdeithas leol trwy roi cyfle i bob myfyriwr ddilyn y rhan helaethaf o'i addysg yn ei ddewis iaith, ac yn

ogystal â hyn, ceisio sicrhau bod datblygiad dwyieithrwydd unigolion yn parhau trwy eu cyngori i ddilyn elfennau o'u haddysg, boed yn gwrs penodol neu'n sgiliau, yn ddwyieithog.

- 6.4.3 Bydd y Cyfadrannau'n darparu cyrsiau a hyfforddiant yn y Gymraeg a'r Saesneg, yn unol ag anghenion y myfyrwyr a chyflogwyr. Bydd hyn yn sicrhau dilyniant yng nghwrs addysg myfyrwyr a fu'n dilyn eu cyrsiau trwy'r Gymraeg neu'n ddwyieithog yn yr ysgol uwchradd, ac o fudd i ddarparu gyflogwyr sy'n awyddus i recriwtio gweithwyr sy'n medru trin eu maes trwy'r Gymraeg neu'n ddwyieithog.
- 6.4.4 Bydd y Cyfadrannau'n gofalu bod myfyrwyr yn cael cyfle i dderbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, neu'n ddwyieithog, yn ôl natur yr addysgu yn y gwahanol bynciau.
- 6.4.5 Bydd y Cyfadrannau'n sicrhau bod modd i fyfyrwyr sefyll arholiadau a phroffion allanol trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, a rhoddir pwyslais ar ddefnyddio Byrddau Arholi sy'n darparu ar gyfer arholi trwy gyfrwng y Gymraeg.
- 6.4.6 Cymraeg neu ddwyieithog fydd cyfrwng gweinyddu mewnol y Cyfadrannau.
- 6.4.7 Bydd y Cyfadrannau, trwy gyfrwng eu holl cyrsiau neu unedau o'r cyrsiau hyn yn rhoi cyfle i fyfyrwyr ddatblygu eu gallu i fod yn hyderus ddwyieithog, er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau llawn o'r gymdeithas y maent yn rhan ohoni, a'u paratoi ar gyfer y farchnad waith yng Nghymru.
- 6.4.8 Bydd y Cyfadrannau'n annog darlithwyr i fynychu cyrsiau hyfforddiant mewn swydd i ddatblygu sgiliau iaith a sgiliau addysgu mewn sefyllfa ddwyieithog, yn ôl yr angen.
- 6.4.9 Bydd ffeil cwrs pob cwrs yn cynnwys Polisi Iaith a fydd yn disgrifio'n fanwl ac eglur y ffordd y bydd y cwrs yn cyrraedd gofynion ac amcanion y Cynllun Iaith.
- 6.4.10 Bydd y Gyfadrannau yn defnyddio gwasanaeth cyfieithu'r Coleg, yn ôl yr angen, i sicrhau ansawdd a chywirdeb ieithyddol y deunydd, a chyflawni'r nod o ddarparu gwasanaeth dwyieithog i'r myfyrwyr.
- 6.4.11 Wrth gyflwyno deunyddiau i'w cyfieithu, bydd pob darlithydd yn gyfrifol am drafod gyda'r cyfieithwyr y cywair a'r lefel iaith sy'n addas i'r dosbarthiadau.
- 6.4.12 Bydd y myfyrwyr, o'r cychwyn cyntaf, yn cael eu hannog i ddilyn eu cyrsiau'n gyfan gwbl neu'n rhannol ddwyieithog neu drwy'r Gymraeg, ac i loywi eu sgiliau dwyieithog a Chymraeg / Saesneg. Bydd hyn yn digwydd trwy broses o gynghori yn ystod cyfnod cynefino myfyrwyr, a

bydd yr hyn a gytunwyd yn dod yn rhan o gytundeb y myfyriwr â'r Coleg. Meithrinir ymwybyddiaeth o fanteision gallu gweithredu'n ddwyieithog ac o'r anghenion galwedigaethol a chymdeithasol am sgiliau dwyieithog, yn lleol ac yn genedlaethol. Pan fo'n bosibl, bydd cymwysterau ychwanegol ar gael o fewn rhaglen astudio neu/a rhaglen diwtorial/sgiliau allweddol/sgiliau sylfaenol i gydnabod dwyieithrwydd y myfyrwyr. O ran adnoddau addysgol, rhoir pob cefnogaeth bosibl er mwyn hybu datblygiad myfyrwyr yn y cyswllt hwn.

6.4.13 Bydd meithrin sgiliau dwyieithog y myfyrwyr, yn ogystal â dysgu unedau/modiwlau/cyrsiau'r maes llafur, yn nod y dylid amcanu ato. Bydd y timau cwrs, felly, yn rhoi sylw i ddeunyddiau addysgu - o ran cywair a lefel iaith addas i allu a chefnidir ieithyddol y myfyrwyr – ac yn rhoi sylw i'r addysgu a'r trafod llafar a geir yn y dosbarth/labordy/gweithdy.

6.4.14 Bydd y nodiadau a baratoir gan ddarlithwyr, ynghyd â dogfennau ffurfiol asesu a'r asesu ei hun yn ddwyieithog (ar wahân i gyrsiau lle nad yw'n bosibl dilyn maes llafur gan CBAC neu fwrdd arall sy'n darparu'n ddwyieithog ar hyn o bryd, ac ar wahân i'r cyrsiau pwnc Saesneg a Chymraeg).

6.4.15 Timau Cwrs Galwedigaethol

Bydd y timau galwedigaethol yn darparu cyrsiau a hyfforddiant yn Gymraeg a Saesneg, gan alluogi'r myfyrwyr i ennill cymwysterau dwyieithog. Ystyrir bod cymwysterau dwyieithog yn angenrheidiol i gael gwaith yn nalgylch y Coleg. Pan fydd cyrsiau'n cynnig asesiadau dwyieithog, gall myfyrwyr gael eu hasesu'n uniaith Gymraeg hefyd.

Bydd angen i bob tîm cwrs galwedigaethol, gyda chymorth Pennaeth y Gyfadran a Chydlynnydd Dwyieithrwydd y Coleg, lunio cynllun gweithredu i gyflawni nodau 6.4.16 - 6.4.21 isod. Oes y cynllun gweithredu fydd tair blynedd yn y lle cyntaf, a nodir y camau i gyflawni'r amcanion. Os bydd natur cyrsiau'n newid yn sgil newidiadau gan y byrddau arholi, gofynnir i dimau cwrs lunio cynllun tair blynedd o ddyddiad cychwyn y cwrs newydd. Mae'r amseriad hwn yn dibynnu ar y gefnogaeth a geir gan yr Uned Gyfieithu ac ar gytundebau llwyth gwaith darlithwyr.

6.4.16 Nod y timau cwrs galwedigaethol fydd cynnig addysg ddwyieithog i'r myfyrwyr, a bydd angen i'r timau nodi man cychwyn a gosod targedau iddynt eu hunain. Golyga hyn fod angen i bob tîm cwrs roi sylw i'r deunyddiau dysgu - o ran cywair a lefel iaith sy'n addas i allu a chefnidir ieithyddol y myfyrwyr – yn ogystal â'r addysgu a'r trafod llafar a geir mewn darlithoedd a thra bo'r myfyrwyr ar brofiad gwaith. Bydd datblygu sgiliau dwyieithog y myfyrwyr, yn ogystal â dysgu unedau/modiwlau'r maes llafur, yn nod y dylid amcanu ato.

- 6.4.17 Bydd cynnydd yn y nodiadau dwyieithog a baratoir gan ddarlithwyr. Bydd gofyn i'r timau cwrs roi blaenoriaeth i unedau sy'n ymwneud â gofal neu gyswllt cwsmer yn gyntaf.
- 6.4.18 Bydd dogfennau asesu aseiniadau a gweithgareddau ymarferol yn ddwyieithog. Dylid rhoi blaenoriaeth i ddogfennau a gwblheir mewn lleoliadau profiadau gwaith, a'r dogfennau a roir yn ffolderi'r myfyrwyr.
- 6.4.19 Bydd sicrhau fod pob aseiniad a roir i'r myfyrwyr yn aseiniad dwyieithog yn nod gan y tîmau cwrs. Er mwyn datblygu sgiliau dwyieithog y myfyrwyr, gofynnir i'r timau cwrs ddynodi rhannau penodol o aseiniadau y gallai'r myfyrwyr eu cwblhau yn Gymraeg neu'n Saesneg.
- 6.4.20 Bydd y darlithwyr yn cynghori ac yn helpu'r myfyrwyr i feithrin eu sgiliau cyfathrebu yn y ddwy iaith. Bydd hyn yn digwydd er mwyn i'r myfyrwyr dwyieithog, a'r rhai sy'n dysgu Cymraeg, gael eu paratoi ar gyfer byd gwaith yn y gymuned ddwyieithog y maent yn rhan ohoni.
- 6.4.21 Bydd gofyn edrych ar gefndir ieithyddol pob myfyriwr unigol, a darganfod, ar sail canlyniadau arholiadau 16+, ble y mae angen cryfhau sgiliau iaith y myfyriwr unigol.
- 6.4.22 Bydd y Cyfadrannau'n monitro datblygiad y Cynllun Iaith yn gyson, ac yn adrodd i'r Cydlynnydd Dwyieithrwydd a Phanel Dwyieithrwydd y Coleg. Bydd Penaethiaid y Cyfadrannau yn cyfrannu adroddiad ar weithgareddau eu cyfadrannau mewn perthynas a dwyieithrwydd i Adolygiad Blynyddol y Cynllun Iaith.
- 6.4.23 Bydd pob cwrs yn cynnal arolwg blynyddol a fydd yn ymwneud â'r materion canlynol:
- Deunyddiau dwyieithog - yn cynnwys nodiadau darlithwyr a'r deunyddiau cyhoeddedig a phrintiedig sydd ar gael.
 - Natur yr addysgu yn y dosbarth - cydbwysedd ieithyddol mewn dosbarthiadau a datblygiad sgiliau dwyieithog y myfyrwyr.
 - Y defnydd a wnaed o wasanaeth cyfieithu'r Coleg.

6.5 Darpariaeth Cyrsiau Cymraeg a Dwyieithog a Gynigir

- 6.5.1 Fel y cyfeiriwyd eisoes, sefydlwyd Coleg Meirion-Dwyfor ar sail Coleg Meirionnydd a oedd yn darparu addysg alwedigaethol 16+ a chysiau rhan-amser i oedolion a dosbarthiadau nos yn Ne Gwynedd, a Choleg Glynllifon a oedd yn darparu hyfforddiant alwedigaethol yn bennaf ar gyfer diwydiannau'r tir – ar gyfer Gwynedd yn ei chyfanrwydd (ffiniau cyn ad-drefnu Llywodraeth leol 1996) a thu hwnt.

Mae bas-data cyrsiau unedau yn rhestru'r amrywiaeth presennol o gyrsiau a gynigir gan y Coleg a'r ddarpariaeth ieithyddol yn nhair elfen o'r cwrs sef dysgu, adnoddau ac asesu. Mae'r bas-data yn nodi yn ogystal y targedau cwrs/uned ar gyfer datblygu'r elfennau hynny.

Diffinnir yr elfen addysgu i fod yn ddwyieithog os traddodir y darlithoedd yn Gymraeg neu'n rhannol yn Gymraeg ac yn rhannol yn Saesneg gan ddilyn model penodol dysgu dwyieithog. Rhoddir gwybodaeth am y model dysgu dwyieithog a ddilynir ym Mholisi Iaith y cwrs. Diffinnir yr elfen adnoddau yn ddwyieithog os oes cyfran ddigonol o adnoddau'r cwrs ar gael yn y Gymraeg i alluogi myfyrwyr ddilyn y cwrs yn Gymraeg. Rhoddir gwybodaeth am yr adnoddau sydd ar gael yn Gymraeg yn Arolwg Iaith flynyddol y cwrs. Diffinnir yr elfen asesu'n ddwyieithog os caiff y myfyrwyr eu hasesu drwy gyfrwng amrywiol ddulliau - aseiniadau, arsyllu, tystiolaeth o'r gweithle, profion neu arholiadau allanol - yn Gymraeg os ydynt yn dymuno.

6.5.2 Cymraeg fel pwnc

Cynigir cwrs Safon Uwch Cymraeg Iaith Gyntaf ar safleoedd Dolgellau a Phwllheli, a Chymraeg Ail Iaith ar Safle Dolgellau yn unig. Derbynnir ymgeiswyr 16 oed ar yr amod iddynt lwyddo i gael gradd C ac uwch mewn TGAU Cymraeg Iaith a TGAU Llenyddiaeth Gymraeg, ar gyfer Safon Uwch Iaith Gyntaf neu radd C yn yr arholiad TGAU Cymraeg Ail Iaith. Yn ogystal rhoddir ystyriaeth i fyfyrwyr aeddfed nad ydynt yn meddu'r cymwysterau hyn.

6.5.3 Cymraeg i Oedolion

Y mae rhwydwaith o ddosbarthiadau nos Cymraeg i Oedolion yn cael eu cynnal mewn cymunedau ar draws Meirion a Dwyfor, yn ogystal ag ar safleoedd y Coleg. Penodwyd Cydlynnydd Cymraeg i Oedolion gan y Coleg i fod â gofal am y dosbarthiadau. Cynigir lefelau Blwyddyn 1 - 4 a dyfernir credydau Rhwydwaith y Coleg Agored i fyfyrwyr. Mae Coleg Meirion-Dwyfor yn rhan o Gonsortiw Cymraeg i Oedolion Gwynedd. Darperir cyrsiau Gloywi Iaith yn ôl y galw. Bwriedir hysbysebu'r cyrsiau Gloywi Iaith ymhlith myfyrwyr 16-18 y Coleg yn ystod 2005-2006 ac i gynnig iddynt y cyfle i ymuno â'r cyrsiau. Gall myfyrwyr 16-18 y Coleg sydd eisiau dysgu'r Gymraeg ymuno â dosbarthiadau nos Cymraeg i Oedolion yn eu hardaloedd. Gwelwyd cynnydd yn niferoedd myfyrwyr mewn dosbarthiadau Cymraeg i Oedolion yn ystod y tair blynedd ddiwethaf o ganlyniad i'r ddarpariaeth POP, (Peripatetic Outreach Provision). Bydd datblygiadau ym maes Cymraeg i Oedolion yn y dyfodol agos yn ddibynnol ar gyhoeddiad trefniadau newydd gan ELWa.

6.5.4 Cynigir y Cyrsiau Addysg Uwch canlynol: Tystysgrif Addysg Ôl-raddedig/Tystysgrif Addysg (Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol), B.A. (Anrhydedd) Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol. Ar safle Glynllifon

cynnigir rhai cyrsiau Tystysgrif Cenedlaethol Uwch a Diploma Cenedlaethol Uwch.

6.5.5 Mae rhestr gyfredol o gyrsiau yn y Gymuned yn y bas-data cyrsiau/unedau.

6.6 Hyfforddiant Gwaith Ganolog

Adran Hyfforddi y Coleg sy'n gyfrifol am Hyfforddiant Gwaith Ganolog a Chyrsiau Byr i Gyflogwyr.

Prif waith yr Adran Hyfforddi yw darparu rhaglenni hyfforddiant trwy gytundebau ELWa. Deil yr Adran gytundebau uniongyrchol gydag ELWa i ddarparu cynlluniau Prentisiaeth Fodern, Hyfforddiant Paratoadol a Hyfforddiant Sgiliau ar gyfer bob carfan o unigolion. Mae dysgwyr sydd ar gynlluniau hyfforddi ELWa gan amlaf yn mewnlenni ar gyrsiau prif lif y coleg drwy fynychu un dydd yr wythnos neu mewn bloc.

Mae'r un ddarpariaeth ieithyddol ar gael i unrhyw un sydd ar gynllun hyfforddi drwy'r Adran Hyfforddi â myfyrwyr prif lif y Coleg, (gweler y dadansoddiad o ddarpariaeth ddwyieithog yng nghyrsiau llawn amser y Coleg).

6.7 Rhaglen Diwtorial/Sgiliau Allweddol

Dosberthir myfyrwyr Lefel A llawn amser i grwpiau tiwtorial yn ôl gwybodaeth a ddarperir gan ysgolion. Mae'r grwpiau yn rhai dwyieithog.

Mae myfyrwyr galwedigaethol wedi eu rhannu'n grwpiau tiwtorial fesul cwrs, ac mae cyfrwng y grwpiau yn ddwyieithog.

6.8 Y Ddarpariaeth a wneir ar gyfer Myfyrwyr ag Anghenion Arbennig

Darperir gwasanaethau arbenigol i fyfyrwyr ag anghenion addysgol arbennig. Mae cyrsiau Anghenion Arbennig y Coleg wedi eu trefnu mewn grwpiau dwyieithog, ac mae'r staff sydd yn gyfrifol am y gwasanaeth o fewn y Coleg yn gwbl ddwyieithog, gan gynnwys tiwtoriaid, cynorthwywyr dosbarth a gweithwyr cefnogol. Mae'r staff yn cyfathrebu gyda myfyrwyr unigol yn newis iaith y myfyrwyr

Mae'r Coleg yn defnyddio gwasanaeth seicolegwyr addysgol ac athrawon ymgynghorol Cyngor Sir Gwynedd, ac yn unol â Chynllun Iaith Cyngor Sir Gwynedd, y mae'r arbenigwyr hyn yn gallu cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg.

6.9 Profiad Gwaith

Rhan allweddol o brofiadau myfyrwyr llawn amser ar gyrsiau Galwedigaethol a Lefel A yw Profiad Gwaith. Mae Coleg Meirion-Dwyfor yn ceisio sicrhau fod darpariaeth ar gael o fewn pellter teithio rhesymol i'r myfyriwr. Ar gyfer rhai cyrsiau bydd y Coleg yn gwneud trefniant ar ran myfyrwyr ond ar gyfer y mwyafrif o'r cyrsiau bydd myfyrwyr yn gwneud eu trefniadau eu hunain wedi ymgynghori â'r tiwtor personol ynglŷn â beth sydd yn addas ac yn angenrheidiol iddynt.

6.10 “Sgiliau Pawb” – Rhaglen Sgiliau Sylfaenol i Oedolion

Mae oedolion sydd yn dilyn y cwrs hwn yn cael eu dysgu yn y Gymraeg neu'r Saesneg, yn ôl eu dewis hwy, mewn dosbarth dwyieithog. Os ydynt am ennill cymwysterau, rhoddir y cyfle iddynt weithio tuag at gymhwyster Rhwydwaith y Coleg Agored, (OCN).

6.11 Llythrennedd Teulu

Mae cyfrwng yr hyfforddiant, y deunyddiau, yr asesu a'r cymhwyster a geir ar ddiwedd y cwrs ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg yn ôl anghenion yr unigolion.

6.12 Cyn Alwedigaethol

Mae cyfrwng y dysgu a'r addysgu yn ôl dewis y myfyrwyr, yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae cyfle i'r myfyrwyr ennill cymhwyster Rhifedd i Oedolion a chredydau Rhwydwaith y Coleg Agored yn y Gymraeg

6.13 Trefniadau derbyn Myfyrwyr

6.13.1 Cynghori Darpar Fyfyriwr a derbyn Myfyrwyr

Nod Coleg Meirion-Dwyfor yw sicrhau bod pob darpar fyfyriwr ac ymgeisydd yn derbyn gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd sydd yn addas a pherthnasol i'w anghenion unigol hwy, cyn ac yn ystod y broses ymgeisio a chofrestru.

6.13.2 Cyn ymgeisio, mae gan bob darpar fyfyriwr yr hawl i wybodaeth a chynghor ynglŷn â holl ddarpariaeth y coleg. Y mae ganddynt yr hawl i wybodaeth ynglŷn â'r ystod o ddewisiadau, cyfrwng iaith y ddarpariaeth, ac unrhyw gefnogaeth a gynigir oherwydd anghenion arbennig neu oblygiadau polisi cyfle cyfartal y coleg.

6.13.3 Wrth ymgeisio bydd gan bob darpar fyfyriwr yr hawl i dderbyn yn ddwyieithog, Gymraeg neu Saesneg, wybodaeth llawn ynglŷn â'r ddarpariaeth y mae'n ymgeisio amdano – cynnwys y cwrs, ei hyd mewn oriau ac wythnosau, y cymhwyster yr anelir ato, dull astudio, dull asesu, dilyniant posibl (o safbwynt addysg bellach, uwch hyfforddiant, a/neu yrfa) aelodau allweddol o staff sy'n gyfrifol am y ddarpariaeth, cyngor a chyfarwyddyd sydd yn sicrhau bod y ddarpariaeth y mae'n

bwriadu ei dilyn yn addas i'w anghenion unigol o safbwynt lefel cyrhaeddiad ac unrhyw gynlluniau pellach ar gyfer addysg bellach neu uwch, hyfforddiant neu waith.

6.13.4 Bydd bob myfyriwr newydd i'r Coleg yn derbyn cyflwyniad llawn i'r ddarpariaeth y mae'n cofrestru ar ei gyfer, darpariaeth allgyrsiol a chymorth atodol yn yr iaith o'i ddewis.

Er mwyn parhau datblygiad dwyieithrwydd y myfyrwyr sydd yn trosglwyddo o Ysgolion Awdurdod Addysg Gwynedd i Goleg Meirion-Dwyfor, a myfyrwyr eraill a addysgwyd y tu allan i'r Awdurdod bydd y Coleg yn cymryd camau i edrych ar gefndir ieithyddol pob myfyriwr a ddaw i'r Coleg yn 16 oed.

Yn dilyn i ddarpar fyfyrwyr dderbyn eu canlyniadau TGAU, a chyn iddynt gychwyn ar eu cyrsiau yn y Coleg, cynhelir cyfarfod rhwng y myfyrwyr a thiworiaid y gwahanol bynciau i drafod addasrwydd dewisiadau'r myfyrwyr. Bydd iaith astudio'r myfyrwyr yn destun trafod yn y cyfarfod yn ogystal â graddau TGAU'r myfyrwyr yn eu pynciau dewis, eu dymuniadau gyrfau, ayb.

Defnyddir ffurflen i gofnodi'r sgwrs rhwng y myfyrwyr a'r tiwtoriaid pwnc. Gofynnir i'r myfyrwyr lenwi'r rhan o'r ffurflen sy'n cofnodi eu cyraeddiadau yn yr ieithoedd cartref, Cymraeg a Saesneg, cyn cychwyn y drafodaeth gyntaf gydag athro pwnc. Mae lle hefyd i gofnodi pwnc / pynciau TGAU'r myfyrwyr sy'n berthnasol i'r pwnc dan sylw ac iaith astudio'r myfyrwyr yn y pwnc hwnnw tra yn yr ysgol. Y bwriad yw cyflwyno'r wybodaeth bwysig mewn perthynas ag iaith astudio'r myfyrwyr tra'n dilyn eu pynciau yn y Coleg yn glir, a chreu sefyllfa lle y gellir cynnig cyngor i'r myfyrwyr ym mater eu dewis iaith. Ceir gopi o'r ffurflen cofnodi sgwrs yn Atodiad 3.

Rhoddir copi o'r daflen "Astudiwch yn Gymraeg" i bob myfyriwr blwyddyn gyntaf yn ystod y cyfarfod cynefino. Mae'r daflen hon yn amlinellu'r rhesymau dros astudio'n Gymraeg ac yn egluro sut y gellir hyd yn oed astudio rhan o bwnc yn Gymraeg.

6.13.5 Anogaeth i astudio'n Gymraeg

Bydd anogaeth i fyfyrwyr sydd wedi astudio pynciau TGAU yn Gymraeg yn yr ysgol ac sydd yn bwriadu parhau i astudio'r pynciau hynny yn y Coleg i wneud hynny drwy Gyfrwng y Gymraeg. Byddant yn derbyn gwybodaeth ynglŷn â'r rhesymau dros astudio'n Gymraeg neu'n ddwyieithog, a chynghor ynglŷn â'r manteision o wneud hynny yn ystod y cyfnod cynefino. Byddant hefyd yn derbyn gwybodaeth am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg y Coleg ac yn cael y cyfle i drafod unrhyw anawsterau sydd yn codi yn eu meddyliau gyda'r tiwtoriaid neu'r gwasanaethau gyrfau. Y mae Corff Llywodraethol y Coleg wedi penderfynu yn ei gyfarfod ar 20:10:2005 mai mabwysiadu polisi o anogaeth i fyfyrwyr i astudio'n Gymraeg y dylid gwneud ond yn y pen draw bod rhaid parchu dewis y myfyriwr unigol. Bydd y Coleg yn nodi

unrhyw resymau gan fyfyrwyr dros beidio ag astudio'n Gymraeg, neu eu rhesymau dros newid i astudio'n Saesneg, ac yn ystyried camau gweithredol posibl i adnabod a datrys anawsterau myfyrwyr ynglŷn ag astudio'n Gymraeg.

6.13.6 Rhieni – o safbwynt ymgeiswyr 16-19 oed mae Coleg Meirion-Dwyfor yn sicrhau bod rhieni yn ymwybodol o natur darpariaeth y Coleg ac o'r drefn ymgynghori. Anogir rhieni i fynychu nosweithiau gwybodaeth a chyfweliadau'r Coleg a darperir yr wybodaeth ar lafar yn yr iaith o'u dewis ac yn ddwyieithog yn ysgrifenedig.

6.14 Rhaglen Gynggori Gyrfa – Ymwybyddiaeth o'r gofyn am Sgiliau Dwyieithog

6.14.1 Addysg Yrfaol

Mae'r addysg yrfaol a gyflwynir i fyfyrwyr yn rhoi ystyriaeth i'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn y byd gwaith.

Gwêl y Coleg bwysigrwydd creu ymwybyddiaeth o werth y Gymraeg yn y byd gwaith o safbwynt ymgeisio am swyddi (llenwi ffurflenni cais, paratoi CV dwyieithog ac yn y blaen). Bydd cyfle i bob myfyriwr weld cynghorydd gyrfa yn unigol, a darperir cyfarwyddyd gan Cydlynedd Gyrfa y Coleg i diwtoriaid ynglŷn â phwysleisio pwysigrwydd meddu sgiliau dwyieithog.

6.14.2 Dewis Gyrfa

Fel rhan o drafodaeth cyngor gyrfa fe anogir myfyrwyr i ystyried gyrfaedd lle mae sgiliau dwyieithog naill ai'n hanfodol neu'n fanteisiol ac fe dynnir sylw at yrfaedd lle mae siaradwyr Cymraeg yn brin.

6.14.3 O safbwynt myfyrwyr sydd heb fod yn rhugl yn y Gymraeg rhoddir pwyslais ar greu ymwybyddiaeth o werth y Gymraeg yn y byd gwaith a thrwy hynny annog myfyrwyr i wella eu sgiliau yn y Gymraeg.

6.14.4 Cyfarwyddyd Gyrfaol

Bydd y pwyntiau uchod yn cael eu cadarnhau a'u cefnogi wrth gyfweld myfyrwyr o un i un fel rhan o Raglen Cyfarwyddyd Gyrfaol.

6.14.5 Deunyddiau Gyrfaol

Mae'r holl ddeunyddiau gyrfaol a baratoir gan y Coleg yn ddwyieithog. Mae'r Coleg hefyd yn archebu'r ychydig ddeunyddiau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael ac yn gwneud defnydd llawn o'r deunyddiau Cymraeg sydd ar gael ar wefan Gyrfa Cymru.

6.14.6 Cyswllt â Gyrfa Cymru

Mae'r Coleg yn cydweithio'n agos â Gyrfa Cymru Gogledd Orllewin sydd ag ymrwymiad eu hunain tuag at greu ymwybyddiaeth o werth y Gymraeg yn y byd gwaith.

6.14.7 **Cynghori Personol**

Mae gwasanaeth cynghori personol gyda Chynghorydd ar gael yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

6.15 **Uned Astudio**

Mae gwasanaeth Uned Astudio ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Bwriad yr Uned yw rhoi cymorth gyda sgiliau astudio e.e. cymorth gyda darllen ac ysgrifennu yn y ddwy iaith, gwaith ymchwil, aseiniadau, paratoi at arholiad ac yn y blaen.

6.16 **Y Llyfrgelloedd**

Mae llyfrgelloedd y Coleg yn cynnwys stoc o adnoddau Cymraeg, yn werslyfrau, nofelau, nodiadau a baratowyd gan ddarlithwyr ar gyfer rhai cyrsiau penodol, cylchgronau a phapurau newydd Cymraeg.

6.17 **Y Ganolfan Adnoddau Gyfrifiadurol**

Mae CySill, Cysgair a'r Termiadur wedi eu gosod ar y rhwydweithiau cyfrifiadurol yn y Ganolfannau Adnoddau Gyfrifiadurol at ddefnydd y myfyrwyr. Mae'r feddalwedd yn medru cynhyrchu allbwn Cymraeg.

6.18 **Dysgu Agored**

Trwy gydweithrediad â Llyfrgelloedd Cyngor Gwynedd, sydd wedi pwrcau deunyddiau dysgu agored masnachol, y mae Coleg Meirion-Dwyfor yn darparu gwasanaeth cefnogol tiwtor am gyfnod penodol. Y mae pecynnau i ddysgu'r Gymraeg ar gael. Trefnir y gwasanaeth tiwtorial drwy gysylltu â Llyfrgellydd Coleg Meirion-Dwyfor.

6.19 **Deunyddiau Cymraeg a Dwyieithog ar y We**

Mae gan Goleg Meirion- Dwyfor safle dwyieithog ar y We. Ein cyfeiriad yw: www.meirion-dwyfor.ac.uk

Sefydlwyd mewnwyd ddwyieithog dros dri safle'r Coleg yn ystod 1999.

6.20.1 **Y Gyfadrn Addysg Barhaus a Chymunedol**

Nod y Coleg yw cynnig cyrsiau Dosbarth Nos, cyrsiau byr a chysiau rhan-amser a fydd yn bodloni anghenion iaith y myfyrwyr, a bodloni anghenion dwyieithog yr ardal.

6.20.2 Nid yw pob un o diwtoriaid Dosbarth Nos y Coleg yn rhugl ddwyieithog. Ar adegau mae'r Coleg yn wynebu trafferth i ddod o hyd i staff cymwys ar gyfer darpariaeth cyrsiau byr e.e mewn rhai agweddau ar fusnes a chynghori. Mae'r Coleg yn ymwybodol fod angen ceisio gwella a chryfhau hyfforddiant dwyieithog, ac fe wneir hyn drwy wneud pob ymdrech i sicrhau fod tiwtoriaid newydd cymwys yn ddwyieithog, ac annog tiwtoriaid presennol i wella eu sgiliau iaith drwy drefniant hyfforddiant mewn swydd.

6.20.3 Ar gyfer nifer o gyrsiau eraill mae'r tiwtoriaid yn rhugl ddwyieithog ac yn cyfathrebu'n ddwyieithog yn y dosbarthiadau ac wrth hyfforddi ac yn ymateb i anghenion unigol y myfyrwyr wrth asesu yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

6.21.1 **Addysg Uwch**

Mae Coleg Meirion-Dwyfor yn gweithio mewn partneriaeth â Choleg Prifysgol Cymru Casnewydd yn ei ddarpariaeth Addysg Uwch sydd ar hyn o bryd yn canolbwyntio ar Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol. Cynigir Cwrs Tystysgrif Addysg ôl-raddedig/Tystysgrif Addysg (Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol), a B.A. (Anrhydedd) Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol..

6.21.2 Gellir dilyn rhan helaeth o'r cyrsiau yma'n ddwyieithog - nid yw pob aelod o staff y Coleg sydd yn addysgu'r cyrsiau hyn yn medru cyfathrebu ar lafar yn ddwyieithog ar hyn o bryd, er bod y mwyafrif yn deall y ddwy iaith yn llafar ac yn ysgrifenedig. Ar gyfer rhai modiwlau Saesneg yw iaith yr addysgu, neu mae cydbwysedd yn y trafod o fewn trafodaethau dosbarth. Pan fo newidiadau staffio yn digwydd, gwneir pob ymdrech i sicrhau staff cymwys dwyieithog, er mwyn sicrhau darpariaeth gwbl ddwyieithog yn y pendraw.

6.21.3 Fe glustnodir tiwtor sydd yn siarad Cymraeg i fyfyrwyr sydd yn siarad Gymraeg ar y cyrsiau hyn.

6.21.4 Mae'n bosibl i fyfyrwyr gwblhau eu haseiniadau yn Gymraeg, yn Saesneg, neu'n ddwyieithog. Mae'r deunyddiau dysgu ar gael yn y ddwy iaith.

6.21.5 Mae profiad ymarfer dysgu'r myfyrwyr yn dibynnu ar natur eu pwnc academaidd. Cyfrifoldeb y myfyrwyr unigol yw canfod lleoliad ymarfer dysgu, ond os na allant ddarganfod lleoliad, mae'r Coleg yn ymdrechu i'w cynorthwyo. Mae'n anodd iawn i'r Coleg gynnig lleoliad o fewn y Coleg i fyfyrwyr os nad ydynt yn meddu sgiliau cyfathrebu dwyieithog.

6.21.6 Ar hyn o bryd nid oes unrhyw ofynion derbyn o ran sgiliau ieithyddol ar y myfyrwyr wrth iddynt gofrestru ar y cyrsiau.

6.21.7 Mae'n bosibl i fyfyrwyr gryfhau a gwella eu sgiliau iaith yn y Gymraeg drwy ymuno â chyrsoedd Cymraeg i Oedolion gan y Coleg.

6.21.8 Mewn partneriaeth gyda Choleg Menai a Choleg Prifysgol Casnewydd datblygwyd modiwlau ar "Addysgu mewn sefyllfa dwyieithog" ac "Addysg Dwyieithog" yn 1999. Mae disgwyl i staff a benodwyd gan y Coleg sy'n dilyn y cwrs Tystysgrif Addysg Ôl-raddedig ddilyn y modiwl "Addysgu mewn sefyllfa ddwyieithog" fel rhan o'u cwrs. Yn ogystal, cynigir y modiwlau fel uned Hyfforddiant Mewn Swydd i staff eraill nad ydynt eisoes wedi derbyn hyfforddiant.

7 Wyneb Cyhoeddus y Coleg

7.1.1 Fel Coleg sydd â pholisi dwyieithog sydd yn gwasanaethu ardal ddwyieithog mae wyneb cyhoeddus a hunaniaeth gorfforaethol Coleg Meirion-Dwyfor yn Gymraeg neu yn ddwyieithog.

7.1.2 Hunaniaeth gorfforaethol

Mae enw'r Coleg yn Gymraeg yn unig ac mae hunaniaeth gorfforaethol y Coleg ar bapur pennawd, papurau ffacs, cardiau busnes, bathodynau adnabod, arwyddion, cyhoeddiadau ac arddangosfeydd yn Gymraeg neu'n ddwyieithog.

7.2 Gweinyddiaeth Fewnol

7.2.1 Mae mwyafrif llethol staff y Coleg yn ddwyieithog, ond y mae rhai sydd â'u dealltwriaeth o'r Gymraeg yn isel. Disgwylir i bob cyfadran wneud trefniadau mewnol fel bod gohebiaeth a anfonir gan aelodau staff di Gymraeg yn cael ei chyfieithu cyn ei hanfon, os yw'r ohebiaeth wedi ei derbyn yn Gymraeg. Gyda threigl amser, fel y bydd staff di-Gymraeg yn dod i ddeall yr iaith yn well, bydd yr angen am hyn yn lleihau.

Bydd dogfennau mewnol y Coleg gan gynnwys dogfennau ar gyfer trafodaeth fewnol/rhannu gwybodaeth yn fewnol, yn Gymraeg a Saesneg ar wahân neu'n ddwyieithog.

7.2.2 Gohebu gyda'r Cyhoedd

Mae'r Coleg yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg fel ei gilydd,

- Ni fydd oedi oherwydd cyfrwng iaith wrth ymateb i'r ohebiaeth – bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y Gymraeg neu'n Saesneg yn cael ei ateb o fewn yr un cyfnod o amser.
- Atebir pob gohebiaeth a anfonir i'r Coleg yn yr iaith y'i derbynnir gan y Coleg.
- Pan fydd y Coleg yn cychwyn gohebiaeth ar ôl siarad wyneb yn wyneb neu dros y ffôn yn Gymraeg, fe wneir hynny yn Gymraeg, oni fydd yr aelod o'r cyhoedd wedi gofyn fel arall.
- Y mae gan y Coleg gronfa o Gylchlythyrau/Llythyrau Safonol dwyieithog.
- Bydd pob llythyr a anfonir at fyfyrwyr yn ddwyieithog.
- Bydd pob llythyr a anfonir at rieni a chyrff yng Nghymru neu yn berthnasol i Gymru yn ddwyieithog. Bydd pob cyfadran yn gwneud trefniadau mewnol fel bod gohebiaeth a anfonir gan aelodau staff di-Gymraeg yn cael ei chyfieithu cyn ei hanfon, os yw'r ohebiaeth wedi ei derbyn yn Gymraeg. Gyda threigl amser, fel y bydd staff di-Gymraeg yn dod i ddeall yr iaith yn well, bydd yr angen am hyn yn lleihau.
- Rhoddir cyfarwyddiadau eglur i bob aelod staff ynglyn â chychwyn neu ateb gohebiaeth.

7.2.3 **Cysylltu dros y ffôn**

Mae'r Coleg yn croesawu cysylltiadau dros y ffôn yn Gymraeg neu Saesneg. Mae pob aelod o staff derbynfeydd y Coleg yn rhugl ddwyieithog ac fe gyferchir galwadau i'r Coleg drwy yngan enw'r Coleg yn unig yn y lle cyntaf.

Trosglwyddir galwadau gan staff y derbynfeydd i staff sydd yn ddwyieithog, ar wahân i'r ychydig nad ydynt yn medru cyfathrebu dros y ffôn yn ddwyieithog ar hyn o bryd. Gyda staff sydd yn rhugl ddwyieithog, bydd y sgwrs ddilynol yn cael ei chynnal yn iaith ddewis y galwr. Mewn sefyllfaoedd ble nad yw'r aelod staff perthnasol yn medru cyfathrebu'n ddwyieithog, eglurir y sefyllfa i'r galwr, a gofynnir iddo a fyddai'n fodlon siarad gydag aelod staff ddi Gymraeg, os mai Cymraeg yw'r dewis iaith y galwr, neu, os yw'r galwr yn dymuno siarad Cymraeg, trosglwyddir yr alwad i aelod staff dwyieithog, gan hysbysu'r aelod staff di-Gymraeg o'r ffaith.

Mae'r cyfarchiad ar beiriannau ateb y Coleg yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn gyntaf.

7.2.4 **Cysylltu wyneb yn wyneb**

Croesewir unrhyw un sydd yn ymweld â derbynfeydd neu swyddfeydd gweinyddol y Coleg i gyfathrebu yn Gymraeg neu yn Saesneg gyda staff gweinyddol a chefnogi busnes y Coleg.

7.2.5 **Cyfarfodydd Cyhoeddus**

Bydd unrhyw gyfarfod cyhoeddus i aelodau'r cyhoedd nad ydynt yn fyfyrwyr neu'n gyflogedig gan y Coleg, a gynhelir yn enw'r Coleg, (e.e. cyfarfod cyhoeddus i rieni), yn cael ei gynnal yn ddwyieithog. Darperir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd oni bai fod y trefnydd neu'r cynllunydd o'r farn na fydd galw am y gwasanaeth. Bydd yr angen am y gwasanaeth wedi ei gadarnhau ymlaen llaw yn dilyn ymholiadau gan y trefnydd. I gael gwasanaeth cyfieithu mewn cyfarfodydd allanol, bydd gofyn rhoi rhybudd o 10 diwrnod i Uned Gyfieithu'r Coleg a rhybudd o 5 diwrnod gwaith ar gyfer cyfarfodydd mewnol.

Mewn cyfarfod cyhoeddus a drefnir gan y Coleg, gall aelodau'r cyhoedd siarad Cymraeg neu Saesneg, yn ôl eu dymuniad, a bydd y Coleg yn sicrhau y bydd ei gynrychiolwyr yn y cyfarfod yn gallu siarad Cymraeg.

Rhoddir gwybod i'r cyhoedd, mewn cyfarfodydd cyhoeddus, y bydd offer cyfieithu ar gael, ac y bydd croeso iddynt ddefnyddio y Gymraeg neu'r Saesneg.

7.2.6 **Cyfarfodydd Mewnol**

Cymraeg, os mai dyna iaith gyntaf y rhai sydd yn bresennol, neu ddwyieithog fydd iaith cyfarfodydd mewnol y Coleg. Mae hyn i gynnwys Cyfarfodydd Staff, Cyfarfodydd Cyfadran, Grwpiau Trafod,

Gweithgorau, a Chyfarfodydd Corfforaethol. Bydd papurau mewnol a ddsberthir mewn cyfarfodydd mewnol yn ddwyieithog neu'n fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân o'r un ansawdd. Bydd cofnodion pob pwyllgor, cyfarfod, grŵp trafod a gweithgor yn Gymraeg neu'n ddwyieithog.

Lle darperir gweinyddiaeth fewnol y Coleg gan unrhyw gorff, cwmni, mudiad gwirfoddol ac yn y blaen, am unrhyw reswm, bydd y weinyddiaeth yn cael ei darparu yn union fel pe bai'r Coleg ei hun yn darparu'r weinyddiaeth.

7.2.7 **Cyfarfodydd Mewnol Eraill - ee darlith, tiwtorial, cyfweliad**

Mae darlithoedd, tiwtoriaid a chyfweliadau'r Coleg yn cael eu cynnal yn Gymraeg, Saesneg neu'n ddwyieithog, gan ddibynnu ar natur, cyd-destun a chynulleidfa'r sefyllfa. Mae cysylltiadau Fideo-Gynhadledd ar gael ar gyfer addysgu a chyfarfodydd. Bydd yr ieithoedd a ddefnyddir yn dibynnu ar gyd-destun y sefyllfa.

7.2.8 Pan fydd y Coleg yn chwilio am raglenni cyfrifiadurol newydd i'w defnyddio sicrheir y bydd y rhaglenni hynny yn caniatáu i'r Coleg weithredu'r ymrwymadau sydd yn y cynllun.

7.2.9 **Dogfennau Gweinyddiaeth Ariannol**

Mae holl ffurflenni gweinyddiaeth ariannol cyhoeddus y Coleg yn ddwyieithog, gan gynnwys sieciau, anfonebau a derbynebau.

7.2.10 **Ffurflenni a deunydd Gwybodaeth**

Cynhyrchir pob ffurflen a deunydd esboniadol yn ddwyieithog. Mewn amgylchiadau lle y mae'n fwy addas neu ymarferol i gynhyrchu ffurflenni yn Gymraeg a Saesneg ar wahân, bydd y ddwy fersiwn yn cael eu cynhyrchu a'u dosbarthu ar yr un pryd a byddant o'r un maint, ffurf, ansawdd eglurder, ac amlygrwydd. Bydd neges yn nodi bod y ffurflen ar gael yn yr iaith arall yn cael ei ddosbarthu gyda'r ffurflenni hyn.

7.2.11 **Trefn a Rheolau**

Mae'r Coleg yn cyhoeddi Rheolau i fyfyrwyr, Llawlyfr i fyfyrwyr sy'n cyfeirio at y Cynllun Iaith ynghyd â materion eraill, Rheolau Llyfrgell, Cytundebau i fyfyrwyr, Ffurflenni cofrestru a Llawlyfr i rieni yn ddwyieithog.

7.3 **Deunydd Cyhoeddusrwydd**

7.3.1 **Arwyddion**

Mae pob arwydd gwybodaeth a chyfeirio o fewn y Coleg, a phob ysgrifen ar gerbydau o eiddo'r Coleg yn Gymraeg neu'n ddwyieithog. Mae ffurf maint, ansawdd amlygrwydd ac eglurder y geiriau yn dilyn yr egwyddor o gydraddoldeb.

Pan fydd y Gymraeg a'r Saesneg yn ymddangos gyda'i gilydd ar arwyddion byddant yn gyfartal o ran ffurf a bydd y Gymraeg naill ai uwchben y Saesneg neu os yw'r ddwy iaith yn gyfochrog, bydd y Gymraeg ar y chwith. Mae'r ddwy iaith yn gyfartal o ran ffurf, ansawdd, maint, eglurder ac amlygrwydd.

Pan fydd arwyddion Cymraeg a Saesneg wedi eu darparu ar wahân byddant yn gyfartal o ran maint, ffurf, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd.

Rhoddir canllawiau i staff perthnasol ynglŷn â gweithredu'r canllawiau hyn.

7.3.2 **Posterï**

Mae posterï ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus y Coleg yn cynnwys manylion lleoliad, dyddiad a'r amser yn Gymraeg neu'n ddwyieithog, gyda maint, safon, ac eglurder y geiriau yn dilyn yr egwyddor o gydraddoldeb.

7.3.3 **Hysbysiadau Mewnol**

Mae hysbysiadau mewnol y Coleg yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg uwchben y Saesneg, neu i'r chwith a chyfartal o ran ffurf, ansawdd, maint ac eglurder. Pan fo sefydliadau o'r tu allan yn defnyddio hysbysfyrddau cyhoeddus y Coleg at unrhyw bwrpas rhoddir gwybod iddynt am ofynion Cynllun Iaith y Coleg a disgwylir iddynt gydymffurfio ag ef. Cyfrifoldeb Rheolwyr Safle'r Coleg yn y lle cyntaf fydd i sicrhau cydymffurfiant posterï a hysbysebion mewnol ac allanol gyda gofynion y Cynllun Iaith.

7.3.4 **Cyhoeddi ac argraffu deunydd ar gyfer y cyhoedd**

Darperir deunydd sydd wedi ei fwriadu ar gyfer y cyhoedd yn ddwyieithog - naill ai yn gyfochrog, neu fod un ochr i ganol cyhoeddiad yn Gymraeg, a'r ochr arall i'r canol yn Saesneg. Yn achlysurol y mae'n angenrheidiol cyhoeddi neu argraffu fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Pan ddigwydd hyn, maent yn cael eu cyhoeddi a'u dosbarthu yr un pryd, a byddant yr un mor rhwydd eu cael.

Petai angen codi tâl am ddogfennau a gyhoeddir ar gyfer y cyhoedd gan y Coleg, ni fydd pris dogfen ddwyieithog yn ddrytach na dogfen uniaith.

Rhoddir cyfarwyddiadau ysgrifenedig i staff, ymgynghorwyr, dylunwyr ac argraffwyr yn esbonio sut i ddelio â chyhoeddiadau dwyieithog ar ran y Coleg.

7.3.5 **Mae prospectysau y Coleg yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog. Mae taflenni cyhoeddusrwydd pynciau/cyrsiau unigol yn cael eu cyhoeddu'n ddwyieithog.**

Mae ffurflenni cais ar gyfer derbyniad i'r Coleg i ddilyn cwrs astudio yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg a'r Saesneg ochr yn ochr.

Mae Llawlyfr i Rieni yn cael ei gyhoeddi yn ddwyieithog, yn Gymraeg o un ochr i'r canol, ac yn Saesneg o'r ochr arall i'r canol. Ar gyfer y cyhoeddiadau uchod mae ffurf maint, ansawdd ac amlygrwydd eglurdeb y geiriau yn dilyn yr un egwyddor o gydraddoldeb.

7.4 Ymgyrch Hysbysebu yn y Wasg

7.4.1 Datganiadau a Hysbysiadau i'r Wasg

Mae pob datganiad i'r wasg a'r cyfryngau a wneir yn enw'r Coleg yn cael ei ddatgan yn ddwyieithog, ond fe wneir datganiadau i newyddiadurwyr unigol yn ôl eu cais, neu yn ddibynnol ar yr iaith y byddant yn gohebu ynddi, e.e. *Y Cymro*, Radio Cymru yn Gymraeg, a *The County Times, Caernarfon and Denbigh Herald* yn Saesneg.

7.4.2 Bydd llefarydd dwyieithog ar gael i gynnal cyfweiliadau yn y Gymraeg.

7.4.3 Hysbysiadau Cyhoeddus

Mae pob hysbyseb gyhoeddus a gyhoeddir gan y Coleg yn ddwyieithog ar fformat colofnau gyda'r Gymraeg ar y chwith, neu'r testun Cymraeg yn uchaf, a'r Saesneg oddi tano, ag eithrio hysbysebion a gyhoeddir mewn cylchgronau a phapurau Cymraeg a fydd yn ymddangos yn uniaith Gymraeg. Mewn achosion eithriadol, mae angen hysbysebu yn Saesneg yn unig e.e. mewn cylchgrawn Prydeinig megis *Horse and Hound*.

7.4.4 Mae posteri hysbysebu a marchnata'r Coleg yn cael eu cyhoeddi un ai'n ddwyieithog neu'n fersiynau uniaith, Cymraeg a Saesneg ar wahân ac fe sicrhau eu bod ar gael ar yr un pryd a'u bod o'r un ffurf, maint, ansawdd eglurder ac amlygrwydd.

7.4.5 Mae taflenni marchnata'r Coleg yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog, gyda'r Gymraeg ar un ochr a'r Saesneg ar yr ochr arall gyda diwyg y ddau destun o'r un maint, ffurf, ansawdd eglurdeb, ac amlygrwydd.

7.5 Ymgyrchoedd Cyhoeddusrwydd

7.5.1 Ymgyrchoedd Marchnata

Mae unrhyw ymgyrchoedd marchnata a gynhelir gan neu ar ran y Coleg yn rhai dwyieithog yn cynnwys arddangosfeydd, stondinau gwybodaeth a chynadleddau. e.e. mewn sioeau amaethyddol ac arddangosfeydd busnes mae cynrychiolaeth staff ddwyieithog, paneli gwybodaeth dwyieithog a llenyddiaeth ddwyieithog

7.5.2 Mewn gweithgareddau sydd yn bennaf yn cefnogi'r iaith a diwylliant Cymraeg e.e. Eisteddfod yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol mae pwyslais Cymraeg ar bresenoldeb y Coleg – bydd cynrychiolaeth staff ddwyieithog ac anogaeth i ddefnyddio'r Gymraeg yn unig. Bydd paneli gwybodaeth yn ddwyieithog a rhai yn Gymraeg yn unig, a llenyddiaeth ddwyieithog.

7.5.3 Dyddiau Blasu

Mae mwyafrif y cyflwyniadau llafar i waith y Coleg ar ddyddiau blasu i ddarpar fyfyrwyr yn ddwyieithog (mae ambell eithriad oherwydd iaith y darlithydd mewn ambell bwnc ar hyn o bryd). Anelir at sicrhau fod

pawb wedi derbyn gwybodaeth lafar neu ysgrifenedig yn yr iaith o'u dewis.

7.5.4 **Marchnata Cyrsiau Cymraeg a Dwyieithog**

Bydd y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn cael ei marchnata'n drwyadl drwy waith y Swyddogion Marchnata a'r Cydlynnydd Gyrfaoedd. Bydd pob un a all fanteisio arni, yn cael yn ddigymell, wybodaeth lawn am yr holl ddarpariaeth – yn gyrsiau craidd, yn gyrsiau gloywi neu'n ddarpariaeth i ddysgwyr a dechreuwyr.

7.5.5 Bydd y wybodaeth yn cael ei throsglwyddo i fyfyrwyr a gweddill y cyhoedd trwy'r prospectws, y wasg, cyfweiliadau personol, dyddiau agored, dyddiau blasu, cynadleddau gyrfaoedd, gan diwtor cwrw/personol o fewn y Coleg a chyingor gyrfaoel addas.

7.5.6 Bydd manteision parhau i ddatblygu sgiliau dwyieithog, neu eu hennill o'r newydd yn cael eu hesbonio yn hollol glir i'r myfyrwyr gan staff y Coleg.

7.5.7 Bydd aelodau staff sydd yn gyfrifol am farchnata a gyrfaoedd a staff dysgu yn ymweld â'r ysgolion uwchradd yn nalgylch y Coleg ac fel rhan o drafodaeth yn tanlinellu'r galw am sgiliau dwyieithog yn y gweithle.

7.5.8 Bydd y Coleg yn gwneud defnydd helaeth o ddeunydd cyhoeddusurwydd o fewn y Coleg i bwysleisio'r angen am weithlu dwyieithog, e.e. posteri'r gyfres "Mae gen ti ddwy iaith..." ac yn datblygu adnoddau Colegol yn dangos anghenion cyflogwyr ar economi o safbwynt sgiliau iaith yng Nghymru.

7.6.1 **Hysbysiadau Swyddogol neu Gyfreithiol**

Bydd hysbysiadau swyddogol statudol cyhoeddus y Coleg yn rhai cwbl ddwyieithog ar ffurf gyfochrog gyda'r Gymraeg ar y chwaith neu gyda'r testun Cymraeg yn uwch na'r testun Saesneg. Bydd y testun yn gyfartal o ran ffurf, maint, ansawdd, amlygrwydd ac eglurder ymhob achos.

7.6.2 Bydd pob dogfen gyfreithiol cyhoeddus yn ymwneud â'r Coleg yn cael ei darparu yn ddwyieithog. Mewn achosion lle bydd y Coleg yn delio â phartïon unigol eraill, un ai fe ddefnyddir dewis iaith y parti arall neu fe ddefnyddir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.

7.7.1 **Hysbysebu Recriwtio Staff**

Bydd pob hysbyseb ar gyfer recriwtio staff a gyhoeddir gan y Coleg yn fewnol ac allanol yn ddwyieithog **ac eithrio:**

- a) Hysbysebion a gyhoeddir mewn cylchgronau a phapurau Cymraeg a fydd yn cael eu cyhoeddi yn uniaith Gymraeg.
- b) Hysbysebion a gyhoeddir mewn cylchgronau a phapurau Saesneg am swyddi lle mae'r gallu i gyfathrebu yn Gymraeg yn gymhwyster

hanfodol a fydd yn uniaith Gymraeg gyda nodyn esboniadol yn Saesneg ar droed yr hysbyseb.

- 7.7.2 Bydd pob hysbyseb recriwtio yn rhai cwbl ddwyieithog ar ffurf gyfochrog gyda'r testun Cymraeg ar y chwith, neu y naill destun uwchben y llall gyda'r Gymraeg yn uchaf. Ymhob achos bydd y testunau yn gyfartal o ran maint, ansawdd ac eglurder.

7.8 Gwasanaethau a Contractir Allan

Bydd unrhyw gytundeb neu drefniant a wneir ag asiantaethau, contractwyr neu drydydd parti sydd yn ymwneud â'r gwasanaethau addysg a hyfforddiant, ac unrhyw wasanaeth arall sydd yn dod o dan y cynllun hwn yn gyson ag amodau a thelerau'r cynllun hwn. Enghraifft o'r math o contract yw gwasanaethau ffreutur ar rai o safleoedd y Coleg.

Bydd angen nodi goblygiadau iaith perthnasol mewn cytundeb ysgrifenedig wrth ddelio ag asiantaethau a chontractwyr a rhaid fydd sicrhau fod gan y darpar contractwyr sgiliau ieithyddol ac adnoddau i gyflawni gofynion y gwasanaeth a contractir, a bydd hyn yn amod o contract. Ar gyfer gwasanaethau penodedig bydd yn amod o contract fod yn rhaid i asiantaethau, contractwyr a thrydydd parti sicrhau eu bod yn medru cyflawni anghenion ieithyddol y cytundeb ac fe fonitorir y gwasanaeth a ddarperir gan Banel Dwyieithrwydd y Coleg.

Bydd canllawiau i staff perthnasol sydd yn delio â chontractio allan yn cael eu paratoi. Mewn rhai achosion, yn dibynnu ar natur y gwasanaeth, bydd y Coleg yn gofyn i'r Contractwr am adroddiad perfformiad yn mesur sut y cydymffurfiwyd gyda Chynllun Iaith y Coleg.

7.9 Gwirio deunydd ar gyfer ei gyhoeddi

Bydd deunydd sydd yn cael ei gyhoeddi ar gyfer y cyhoedd yn cael ei wirio, cyn ei gyhoeddi, gan dîm o staff yn cynnwys cyfieithwyr, gweinyddwyr neu ddarlithwyr sydd yn meddu sgiliau iaith o safon uchel yn y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd staff y Coleg yn ymwybodol o'r drefn hon.

8. Partneriaethau/Cydweithio â Sefydliadau Eraill

- 8.1 Datganiad Cytunedig ar ddilyniant i Bolisi Iaith Gwynedd ac Ynys Môn i Addysg Bellach.

- 8.1.1 Er bod y gyfundrefn Addysg Bellach yn annibynnol o'r Awdurdod Addysg Lleol, dymuniad Coleg Meirion-Dwyfor yw cydweithio â'r Awdurdod Addysg Lleol i sicrhau dilyniant a pharhad yn y ddarpariaeth ôl 16 a gynigir yn y Sir.

- 8.1.2 Dengys y Coleg yn ei Gynllun Iaith sut y bwriedir adeiladu ar bolisiau iaith Gwynedd ac Ynys Môn. Mae nod y polisiau hynny sef

“dwyieithrwydd cytbwys oed – berthnasol” yn un cyffredin er mwyn paratoi myfyrwyr ar gyfer byw a gweithio yn eu cymunedau a thu hwnt.

- 8.1.3 Cydnabyddir fod hawl gan fyfyrwr i ddisgwyl derbyn y rhan helaethaf o'i addysg yn ei iaith gyntaf, ynghyd â'r cyfle i ddatblygu'r defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg ac unrhyw iaith arall hyd eithaf ei allu a gwneir hyn fel y mae adnoddau dynol a materol ar gael a strategaethau priodol wedi eu datblygu.
- 8.1.4 Gan fod cyfathrebu effeithiol yn sylfaenol i bob maes dylai'r myfyrwyr gael cyfle i astudio a datblygu agweddau o gyfathrebu yn y Gymraeg a'r Saesneg drwy gydol eu cyfnod yn y Coleg. Bydd y pwyslais a roir ar y naill gyfrwng a'r llall yn amrywio o fyfyrwr i fyfyrwr ynghyd â chyfrwng gweddill ei gwrs.
- 8.1.5 Penodir aelod o uwch staff y Coleg yn gydlynnydd addysg ddwyieithog o fewn y sefydliad. Cyfrifoldeb y cydlynnydd a'r panel iaith fydd monitro a gweithredu polisi iaith y Coleg gan adrodd yn ôl i'r Pennaeth.
- 8.1.6 Mae'r Coleg yn awyddus i gryfhau'r cysylltiad rhyngddynt â'r Awdurdod Addysg Lleol gan gydweithio mewn meysydd allweddol er lles myfyrwyr ac addysg ddwyieithog mewn perthynas â'r Awdurdod Addysg Lleol a fydd yn hybu a meithrin cydweithio rhwng y ddau sector.
- 8.1.7 Nodir isod y meysydd lle y dymunir gweld cydweithio a rhannu arbenigedd:-
- Hyfforddiant datblygiad proffesiynol staff dysgu e.e. drwy raglen Hyfforddiant Mewn Swydd CYNNAL.
 - Datblygu deunyddiau ôl 16 ar y cyd.
 - Defnyddio ac ehangu'r defnydd o dechnoleg newydd.
 - Cysylltiadau ag asiantaethau allanol megis ELWa, Cwmni Gyrfa, Byrddau Arholi.
- 8.2.1 Mae Coleg Meirion-Dwyfor yn cydweithio â sefydliadau/asiantaethau fel:
- *Assessment and Qualification Alliance*
 - Awdurdod Datblygu Cymru
 - *Edexcel*
 - Canolfan Bedwyr
 - Cyd Bwyllgor Addysg Cymru
 - ELWa
 - Coleg Ceredigion
 - Coleg Harlech/Cymdeithas WEA
 - Coleg Menai
 - Cyngor Gwynedd
 - *Further Education Development Agency*
 - Fforwm

- Fforwm Economaidd Gogledd Cymru
- *Oxford and Cambridge RSA Examinations Group*
- Parc Cenedlaethol Eryri
- Partneriaeth Canolbarth Cymru
- Prifysgol Casnewydd
- Prifysgol Gymunedol Gogledd Cymru - gyda Prifysgol Bangor ac Athrofa Gogledd Ddwyrain Cymru
- Undeb Amaethwyr Cymru/Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr
- Urdd Gobaith Cymru

Mae Coleg Meirion-Dwyfor yn ystyried y partneriaethau hyn yn allweddol i fodloni anghenion ieithyddol yr ardal hon, a bydd yn chwilio am ffyrdd i gydweithio ymhellach i fodloni'r anghenion hynny.

8.2.2 Mae Coleg Meirion-Dwyfor yn cydweithio â Sgiliaith i ehangu a mireinio Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol cyfrwng Cymraeg. Un o amcanion y prosiect yw cynorthwyo Colegau addysg bellach i ehangu eu darpariaeth o gyrsiau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

9. Gwasanaeth Cyfieithu

9.1.1 Fframwaith staffio

Darperir gwasanaeth cyfieithu i dri champws y Coleg gan ddau gyfieithydd sydd wedi'u lleoli yn yr Uned Gyfieithu ar Safle Dolgellau. Bydd yr Uwch Gyfieithydd yn goruchwyllo a chydlynu gwaith yr Uned o ddydd i ddydd, ac mae ef yn atebol i'r Cyfarwyddwr sy'n gyfrifol am gefnogaeth i'r myfyrwyr. Bydd amryw o staff addysgu a staff gweinyddol y Coleg yn ymgymryd â chyfieithu cyfran o'u deunyddiau cwrs a'u dogfennau gweinyddol, a bydd y cyfieithwyr ar gael i olygu eu gwaith. Pan fydd baich y gwaith cyfieithu yn drwm iawn, bydd yr Uned yn comisiynu cyfieithwyr proffesiynol o'r tu allan i'r Coleg.

9.1.2 Rhwydwaith cyfrifiadurol

Cysylltwyd y tri safle â'i gilydd drwy rwydwaith cyfrifiadurol. Mae hyn yn galluogi staff yr holl safleoedd i anfon deunyddiau'n rhwydd at y cyfieithwyr ac yn galluogi'r cyfieithwyr, yn eu tro, i anfon eu cyfieithiadau'n ddidrafferth at y staff.

9.1.3 Natur y gwasanaeth

Mae tair agwedd ar waith yr Uned Gyfieithu:

- cyfieithu deunyddiau ar gyfer cyrsiau'r Coleg
- cyfieithu dogfennau gweinyddol
- trefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd

Deunyddiau cwricwlaidd

Rhoir blaenoriaeth i gyfieithu deunyddiau i gyrsiau'r Coleg - cyrsiau galwedigaethol, cyrsiau lefel A, a chyrtsiau ôl-radd.

Wrth gyfieithu'r deunyddiau hyn, rhoir sylw arbennig i gywair yr iaith er mwyn sicrhau bod yr iaith yn addas i fyfyrwyr o wahanol gyraeddiadau addysgol. Cedwir copiâu printiedig, dwyieithog o bopeth a gyfieithir, a chrewyd cronfa ddata fel y gall y staff ganfod yn hwylus pa ddefnyddiau sydd wedi'u cyfieithu, a defnyddio rhain at eu dibenion addysgu.

9.1.4 **Dogfennau gweinyddol**

Cyfieithir dogfennau gweinyddol i lywodraethwyr, rheolwyr, staff addysgu a staff gweinyddol y Coleg. Anogir y staff i gynhyrchu eu gwaith yn y Gymraeg, a bydd y cyfieithwyr yn bwrw golwg dros yr iaith, os bydd angen.

Y mathau o ddogfennau gweinyddol a gyfieithir yw:

- polisïau'r Coleg
- cynlluniau strategol y Coleg
- adroddiadau
- dogfennau cyfreithiol
- contractau cyflogi
- dogfennau cyllid
- deunydd marchnata / hysbysebu
- swydd-ddisgrifiadau
- bwletinau staff
- cylchlythyrau
- ffurflenni
- arwyddion

9.1.5 **Cyfieithu ar y pryd**

Yn holl gyfarfodydd y Coleg, perchir hawl pob unigolyn i drafod y materion dan sylw yn iaith ei ddewis, ac os bydd angen, bydd yr Uned Gyfieithu'n trefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. Cynhelir unrhyw gyfarfodydd lle na ddarperir cyfieithiad llafar (e.e., cyfarfodydd cyffredinol y staff, cyfarfodydd timau cwrs ac ati) yn Gymraeg neu mewn cyfuniad cytbwys o Gymraeg a Saesneg.

Felly, bydd yr Uned Gyfieithu'n trefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd:

- yng nghyfarfodydd y Gorfforaeth
- mewn cyfarfodydd rhieni
- mewn cyfarfodydd cyhoeddus sydd yn enw'r Coleg

Sefydlwyd trefn benodol i'w dilyn pan fydd ar staff angen gwasanaeth cyfieithu mewn cyfarfodydd gwahanol i'r uchod.

9.2.1 **Rhychwant y gwasanaeth**

Mae cyfieithwyr y Coleg yn cyflawni pump prif swyddogaeth:

- cyfieithu
- golygu
- cynnig cyngor ieithyddol dros y ffôn
- cynnig cymorth ymarferol i gyfieithu
- rhannu gwybodaeth am ddeunyddiau a gyfieithwyd.

9.2.2 **Cyfieithu**

Cyfieithir i'r staff gweinyddol yn ogystal ag i'r staff addysgu. Cyfieithir o Gymraeg i Saesneg, ond gan amlaf o Saesneg i Gymraeg. Rhoir pwyslais ar gynhyrchu pob cyfieithiad mewn diwyg sydd o'r un safon â diwyg y deunydd gwreiddiol, a bydd y cyfieithwyr yn diweddarau eu sgiliau cyfrifiadurol er mwyn cyflawni'r nod hwn.

9.2.3 **Golygu**

Anogir staff y Coleg i gynhyrchu cymaint â phosib o'u gwaith yn y Gymraeg. Cânt gyfle i loywi eu sgiliau ysgrifenedig a'u sgiliau cyfieithu mewn gweithdai iaith, a threfnir iddynt e-bostio eu cyfieithiadau, fel y gall y cyfieithwyr ei golygu'n hwylus.

9.2.4 **Cynghori dros y ffôn**

Er bod amryw o aelodau'r staff yn gwneud defnydd o *Eiriadur yr Academi* (Dr Bruce Griffiths / Dafydd Glyn Jones) ac o feddalwedd *Cysill*, *Cysgair* neu *Cysgliad*, gallant hefyd gael cyngor dros y ffôn gan yr Uned Gyfieithu, o ran addasrwydd termau arbenigol a chywirdeb ieithyddol, cyffredinol.

9.2.5 **Cymorth ymarferol i gyfieithu'n ysgrifenedig**

Neilltuwyd ystafell yn yr Uned Gyfieithu fel y gall unrhyw aelod staff daro i mewn a gweithio ar ddeunydd sydd angen ei gyfieithu. Bydd y cyfieithwyr wrth law i gynnig cymorth ymarferol yn y fan a'r lle.

9.2.6 **Rhannu gwybodaeth â'r staff**

Rhoir gwybodaeth i staff, drwy gyfrwng cronfa ddata a bwletinâu staff ac ati, am y deunyddiau a gyfieithwyd gan yr Uned Gyfieithu, a phennwyd ystafell i arddangos deunyddiau Cymraeg/dwyieithog ychwanegol sy'n berthnasol i gyrsiau'r Coleg. Pecynnau dysgu yw'r rhan fwyaf o'r rhain. Ar gael hefyd yn yr Uned Gyfieithu y mae amrywiaeth o adroddiadau a ffrwyth ymchwil yn y maes addysgu dwyieithog.

9.3.1 **Y Drefn Gyfieithu**

Sefydlwyd trefn glir, gyflym a chyfleus i gyflwyno gwaith i'r Uned Gyfieithu, ac mae'r staff yn gwybod beth yw'r drefn.

- bydd staff Safle Dolgellau yn galw'n bersonol i weld y cyfieithwyr i drafod pob gwaith sydd angen ei gyfieithu er mwyn datrys unrhyw anawsterau yn y testun a chytuno ar ddyddiad i gwblhau'r cyfieithiadau. Byddant yn e-bostio'r gwaith at yr Uwch Gyfieithydd.

- bydd staff y safleoedd eraill yn ffonio'r Uned i drafod y gwaith, ac yn e-bostio deunydd wedyn at yr Uwch Gyfieithydd.
- os bydd angen cyfieithu deunydd sydd heb ei osod ar gyfrifiadur, gall y staff ei ffacsio at yr Uwch Gyfieithydd.

9.3.2 Pennu blaenoriaethau

Anfonir pob gwaith sydd angen ei gyfieithu at yr Uwch Gyfieithydd yn y lle cyntaf, ac ef fydd yn pennu'r blaenoriaethau gwaith o ddydd i ddydd.

Bydd y flaenoriaeth hyblyg a roir i ddeunyddiau unigol yn dibynnu ar:

- dyddiad cyflwyno'r deunydd i'r cyfieithwyr
- y brys dilys sydd am y cyfieithiad

Clustnodir amser penodol ar yr amserlen gyfieithu ddyddiol i gyfieithu dogfennau gweinyddol, a defnyddir gweddill yr amser i gyfieithu deunyddiau addysgol.

Rhoir blaenoriaeth gyffredinol i'r mathau canlynol o ddeunyddiau:

a) **deunyddiau cwricwlaidd**

Ar gyfer ystod helaeth o gyrsiau Galwedigaethol, Safon Uwch a Chyrsiau ôl radd Addysg a Hyfforddiant.

- nodiadau darlithoedd/gweithdai
- aseiniadau/tasgau
- darnau dethol o lyfrau cwrs
- pecynnau dysgu
- deunydd taflunio
- profion asesu a chwestiynau arholiad

b) **dogfennau cyhoeddus**

- gohebiaeth rhwng y Coleg a chyrrff cyhoeddus yng Nghymru
- pob gohebiaeth ddechreuol ag aelodau unigol o'r cyhoedd
- pob gohebiaeth â myfyrwyr a'u rhieni/gwarcheidwaid
- pob gwybodaeth fewnol i staff y Coleg
- pob gwybodaeth i'r cyhoedd
- pob deunydd marchnata
- holl bolisiâu'r Coleg
- prif adroddiadau'r Gorfforaeth
- prif gofnodion is-bwyllgorau'r Gorfforaeth
- pob ffurflen weinyddol
- pob hysbysiad a ymddengys ar ein hysbysfyrdau
- holl arwyddion y Coleg

9.4 Sicrhau ansawdd

Mae gan gyfieithwyr y Coleg gymwysterau proffesiynol cydnabyddedig a threfnir iddynt loywi eu sgiliau drwy fynychu gweithdai a chysiau a gynhelir gan gyrrff fel Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru.

10 Dulliau Addysgu Dwyieithog

10.1.1 Nod y Coleg yw ceisio sicrhau parhad yn natblygiad dwyieithrwydd y myfyrwyr wrth iddynt drosglwyddo o'r Sector uwchradd, ac ymateb i anghenion unigol a myfyrwyr aeddfed a rhan amser a ddaw o'r gymuned. Goblygiadau hyn yn y sefyllfa ddysgu yw bod angen cynnwys yn y fethodoleg addysgu ddulliau o feithrin a chadarnhau sgiliau iaith y myfyrwyr sydd yn astudio'r cwrs. Mae'r stratagaethau a nodir yn yr adran hon yn berthnasol i gyrsiau a addysgir yn ddwyieithog, ond bydd y dulliau a ddefnyddir yn amrywio o gwrs i gwrs yn dibynnu ar gyd-destunau'r grwpiau addysgu.

10.1.2 Mae gwneud defnydd o ddulliau addysgu myfyriwr ganolog yn bwysig, gan y gall sefyllfaoedd lle mae dysgu'n rhy athro ganolog yn barhaus fod yn andwyol i gynnydd dwyieithrwydd yr unigolyn. Mae annerch y dosbarth cyfan mewn dwy iaith yn gyfartal a chyson yn gallu bod yn straen ar ddarlithydd.

10.1.3 Bydd gwybodaeth yn cael ei roi i staff addysgu iddynt fedru gwerthfawrogi natur ieithyddol y gymuned â'r cydbwysedd ieithyddol sydd yn angenrheidiol ar gyfer datblygiad dwyieithog y myfyriwr unigol. Bydd agwedd a chymhelliant, hyfedredd dwyieithog a hunan hyder y darlithydd felly yn holl bwysig.

10.1.4 Nod pendant Coleg Meirion-Dwyfor yw cynyddu sgiliau dwyieithrwydd ei fyfyrwyr. Ond oherwydd yr amrywiaeth sydd yng nghefndir ieithyddol a sgiliau'r myfyrwyr a ddaw i'r Coleg rhaid edrych ar amrywiaeth o strategaethau ac amodau i gyflawni hyn. Bydd angen i dimau cwrs unigol a thiworiaid pwnc gynnal archwiliad o'u dulliau addysgu presennol a chyflwyno polisi a strategaeth cwrs/pwnc i'w drafod gyda Chydlynnydd Dwyieithrwydd y Coleg.

10.1.5 Gellir ystyried cyfuniad o'r trefniadau hyn, er enghraifft fel modelau, yn dibynnu ar natur a chyd-destun y grwpiau addysgu.

1. Dysgu cyfochrog trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.
2. Gwaith llafar yn y Gymraeg a'r gwaith ysgrifennu yn y Saesneg neu'n ddwyieithog neu i'r gwrthwyneb, y llafar yn Saesneg a'r ysgrifenedig yn Gymraeg neu'n ddwyieithog.
3. Darparu nodiadau yn y ddwy iaith gan gynnwys terminoleg.
4. Profiad gwaith lle mae'r iaith yn wahanol i iaith y cwrs neu lle mae cyfle ac angen gallu cyfathrebu'n ddwyieithog.

5. Paratoi nodiadau/taflenni gwaith yn y ddwy iaith.
6. Neilltuo amser penodol i'r ddau gyfrwng iaith o fewn dosbarth e.e. 15 munud yn y Gymraeg, 15 munud yn y Saesneg.
7. Rhoi myfyrwyr mewn grwpiau yn ôl iaith a rhoi sylw ar wahân i'r
8. grwpiau iaith gwahanol o fewn dosbarth.
9. Sicrhau deunyddiau addysgu da yn y Gymraeg a Saesneg.
10. Cyflwyno geirfa / terminoleg ddwyieithog ar ddechrau'r ddarlith.
11. Y darlithydd i gyflwyno gwybodaeth a chyfarwyddiadau yn y naill iaith neu'r llall ar wahanol adegau yn ystod y wers. Dylid osgoi'r arfer gwael o ddefnyddio'r ddwy iaith o fewn yr un frawddeg. Dylid defnyddio un iaith yn unig i ymdrin ag agwedd arbennig o'r wers, gan ddefnyddio'r iaith arall i ymdrin ag agwedd arall yn ystod y wers. Dylid annog myfyrwyr i ateb cwestiynau yn yr iaith a'u gofynnwyd hwynt.
12. Cywiro camgymeriadau amlwg yn y ddwy iaith. Bydd angen i'r Coleg fabwysiadu polisi cywiro cyffredin ar draws y Coleg yn y ddwy iaith. Rhaid i ddarlithwyr fod yn ymwybodol o gyrhaeddiad, a dylai disgwyliadau gan staff fod yn rhai realistig. Dylai staff dysgu gywiro camgymeriadau cyffredin yng ngwaith myfyrwyr a rhoi cymorth i fyfyrwyr i ysgrifennu'n gywir.
13. Defnyddio dull tiwtorial o gyflwyno ac addysgu yn hytrach na darlith draddodiadol.
14. Rhaid sicrhau gwaith llafar cyson a dylai'r gwaith amrywio a ran ffurf a chynnwys gwrando, llafar, darllen ac ysgrifennu.
15. Defnyddio'r ddwy iaith i atgyfnerthu'r naill iaith a'r llall o fewn yr un dosbarth / gwrs / darlith.
16. Cynllunio dysgu gwahaniaethol o ran gallu ac o ran gallu ieithyddol. Bydd angen symud i ffwrdd oddi wrth y syniad o addysgu 'dosbarth' ac yn hytrach edrych ar ddosbarth o unigolion sydd ag anghenion ieithyddol gwahanol. Bydd angen felly ddefnyddio ystod o gyweiriau a lefelau iaith o fewn yr un dosbarth o bosibl.
17. Symleiddio'r Gymraeg a'r Saesneg ar lafar gyda rhai myfyrwyr.
18. Symleiddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn ysgrifenedig mewn nodiadau ar y dechrau ond cynyddu'r safon yn raddol fel bod y myfyrwyr yn gwneud cynnydd ac yn cael eu hymestyn. Mae ystyried oed darllen testun yn ystyriaeth bwysig iawn - yn ogystal â beth yw cyrhaeddiad ieithyddol y myfyrwyr wrth iddynt drosglwyddo i'r Coleg.

- 10.1.6 Mae angen i bob tiwtor cwrs / personol felly bod yn ymwybodol o'r defnydd a wneir o'r ddwy iaith ym mhob uned o gwrs neu raglen astudio. Yn rhan o gynllun gwaith bob cwrs a maes cwricwlaidd dylid cynnwys nodau ieithyddol / dwyieithog a dylai pob aelod staff sydd yn addysgu rhan o'r cwrs fod yn ymwybodol o bolisi'r cwrs. Gellir cael cyfuniad o'r sefyllfaoedd uchod o fewn rhaglen astudio neu gwrs, ond y nod canolog ydy fod dwyieithrwydd pob myfyriwr yn cynyddu wrth ddilyn cwrs, ond mae'r cydbwysedd ieithyddol yn mynd i amrywio yn dibynnu ar gefndir a sgiliau iaith y myfyriwr unigol.
- 10.1.7 Rhoddir cydnabyddiaeth amser paratoi i staff sy'n addysgu'n ddwyieithog.

11. Staff y Coleg

- 11.1 Er mwyn i'r Coleg allu cyflawni'r Cynllun hwn bydd yn datblygu a mabwysiadu strategaeth sgiliau ieithyddol. Bydd y strategaeth yn galluogi'r Coleg i gadw gorolwg dros adnodd ieithyddol y Coleg a sicrhau bod yr adnodd yn ddigonol ac yn addas yn ôl yr angen i'r dyfodol. Bydd y polisiau a'r camau a nodir yn adrannau 11.1.2 - 11.1.7, 11.2.1 ac 11.3.1 isod yn rhan o'r strategaeth hon.
- 11.1.1 Er mwyn i'r Coleg allu gweithredu yn unol â'r Cynllun hwn, bydd yn angenrheidiol i staff y Coleg allu cyfathrebu'n effeithiol yn Gymraeg a Saesneg i safon sydd yn angenrheidiol i ddibenion y swydd er mwyn iddynt allu cyflawni eu dyletswyddau'n llawn. Mae'r Coleg yn dymuno cydweithio gyda'i staff i gyrraedd y nod hwn, ac felly mae'n rhaid cydnabod fod angen hyblygrwydd i gyrraedd y nod.
- 11.1.2 Er mwyn gweithredu polisi'r Coleg bydd angen i ddeiliaid swyddi penodedig allu cyfathrebu yn ddwyieithog. Bydd y Pennaeth a Dirprwy Bennaeth y Coleg yn clustnodi'r swyddi hynny lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol oherwydd natur y swyddi. Os na fydd yn bosibl penodi aelod o staff cymwys dwyieithog, bydd y Coleg yn ystyried ymarferoldeb penodi dysgwyr neu ymgeisydd di-Gymraeg cymwys ar yr amodau canlynol:
- Os nad yw ymgeisydd llwyddiannus yn meddu ar y sgiliau iaith priodol pan y'i penodir, fe'i penodir ar yr amod ei fod yn cyrraedd safon briodol, h.y. i allu cyfathrebu'n hyderus ac yn y pen draw addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg o fewn:
- 24 mis calendr i Ddysgwyr sydd â pheth gwybodaeth o'r iaith
42 mis calendr i ddechreuwr nad ydynt yn meddu ar unrhyw sgiliau'r iaith Gymraeg pan y'u penodir.
Bydd hyn yn amod o gyflogaeth.
- 11.1.3 Yn achos staff sydd wedi gweithio'n rhan-amser i'r Coleg e.e. fel tiwtor dosbarth nos, ond eu bod wedi eu cyflogi cyn oes y cynllun hwn, ond nad ydynt yn meddu sgiliau dwyieithog, a'u bod yn ymgeisio am swyddi

llawn amser, bydd yr amodau uchod yn rhan o amod cyflogaeth ar gyfer y swydd llawn amser.

11.1.4 Wrth hysbysebu swyddi eraill heblaw'r rhai lle mae'r gallu i gyfathrebu'n ddwyieithog yn hanfodol, bydd y Coleg yn nodi fod yn rhaid i ddeiliaid y swydd allu cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg hyd at safon sydd yn angenrheidiol ar gyfer anghenion y swydd. Croesewir ceisiadau gan ddysgwyr sydd yn barod i roi ymrwymiad i ddysgu Cymraeg i safon addas i anghenion y swydd.

11.1.5 Rhoddir anogaeth i staff wella eu sgiliau ieithyddol ac fe wneir trefniadau iddynt gael eu rhyddhau i ddysgu neu i loywi eu Cymraeg neu Saesneg. Bydd y Coleg yn gwneud darpariaeth ar gyfer hyfforddi staff ar sawl lefel ac yn darparu cyllid ar gyfer hynny:

- darpariaeth ar gyfer dysgu Cymraeg o'r newydd
- darpariaeth ar gyfer staff sydd yn meddu ar rai sgiliau iaith Gymraeg ond nad ydynt yn rhugl
- siaradwyr Cymraeg neu Saesneg rhugl ond sydd angen gloywi eu sgiliau ysgrifenedig a/neu lafar.

Rhyddheir aelodau staff o'u cyfrifoldebau arferol i fynychu cyrsiau iaith.

11.1.6 Paratoir hyfforddiant a chefnogaeth addas ar gyfer unigolion yn dilyn asesiad manwl o anghenion wrth iddynt gaffael sgiliau iaith. Disgwylir i'r cyfadrannau wneud trefniadau i gefnogi'r unigolion hynny fydd yn dysgu iaith.

11.1.7 Bydd Cydlynnydd Cymraeg i Oedolion a/neu Cydlynnydd Dwyieithrwydd y Coleg yn monitro ymdrechion staff wrth ddysgu neu wella'u Cymraeg o ran cynnydd sgiliau a pherfformiad. Cydnabyddir y bydd y gallu i gaffael sgiliau ieithyddol yn amrywio a bydd yn rhaid i'r Coleg ystyried hyn wrth asesu cynnydd. Efallai y bydd rhai yn llwyddo i ddysgu'r iaith cyn y cyfnodau a nodir ac y bydd eraill angen rhagor o amser i gyrraedd yr un safon. Bydd yr ymroddiad a'r ymdrech yn feini prawf pwysig a bydd y Coleg yn hyblyg ac amyneddgar lle dangosir hynny.

11.2 Staff Addysgu

Y mae angen i staff fod yn hollol ymwybodol o hyfedredd dwyieithog aelodau'r dosbarth y maent yn ei ddysgu/hyfforddi. Cyfrifoldeb y tiwtor cwrs/personol fydd rhannu'r wybodaeth yma i ddarlithwyr pwnc ac aelodau timau dysgu, yn dilyn y cyfweld a fydd wedi digwydd yn ystod yr wythnos anwytho a thystiolaeth canlyniadau TGAU.

11.3 Hyfforddiant mewn Swydd

Mae angen i'r Coleg barhau i gefnogi datblygiad staff i sicrhau bod staff yn gallu cynnig y gefnogaeth ieithyddol ar gyfer cwricwlwm gwirioneddol ddwyieithog gyda chyllid penodol ar gyfer y pwrpas hwn.

Anogir staff sy'n ddechreuwr a dysgwyr eraill i fynychu Dosbarthiadau Cymraeg i Oedolion y mae'r Coleg yn eu cynnal yn y gymuned. Darperir gyrsiau Gloywi Iaith yn flynyddol. Hysbysu'r staff y Coleg am gyrsiau Gloywi Iaith fel rhan o'r amrywiol weithgareddau hyfforddiant mewn swydd sydd ar gynnig i staff.

Cynllun Datblygu Dwyieithrwydd Coleg Meirion-Dwyfor ar gyfer 2005/6 – 2007/8

Trosolwg 3 mlynedd

Maes cyffredinol	Maes Penodol	Blwyddyn gweithredu
Natur ieithyddol y Coleg yn gyffredinol	Y drefn o annog myfyrwyr i astudio drwy'r Gymraeg	2005/2006
	Monitro llwyddiant y drefn ac adolygu yn ôl yr angen	2006/2007
	Cyflwyno Gwobrau Astudio'n ddwyieithog	2005/2006
	Adolygu llwyddiant y drefn ac adolygu yn ôl yr angen	2006/2007
	Cynhyrchu copi cryno o'r Cynllun iaith at ddefnydd staff	2006/2007
Y ddarpariaeth o safbwynt dysgu ac addysgu	Sicrhau fod Cyfadranau yn llunio targedau realistig ar gyfer Medi 2006/7	2005/2006
	Symud Cyfadranau at drefn o flaenoriaethu mwy effeithiol ym maes datblygu adnoddau	2006/2007
	Cwblhau'r gwaith o lunio cynlluniau iaith cyfadranol	2006/2007
	Cymraeg i Oedolion – trafod gyda'r Canolfannau Iaith newydd	2005/2006
	Cymraeg i Oedolion – sicrhau'r trefniadau iawn er mwyn cyflawni'r gwaith	2006/2007
Paratoi adnoddau newydd ar gyfer darpariaeth fewnol y Coleg	05/06, 06/07, 07/08	
Partneriaethau/ Cydweithio gydag eraill	Cwblhau prosiect CIF "Dysgu Fideo Dwyieithog" yn llwyddiannus	2005/2006
	Sefydlu Grwp Traws-sectorol ar Ddwyieithrwydd	2005/2006
	Cyfarfod Darparwyr eraill i drafod arfer da mewn dysgu dwyieithog	2005/2006
	Canfod ffordd fwy effeithiol o gyflwyno cwrs lefel 3 Cymraeg Ail Iaith ar draws Gwynedd	2006/2007
	Ymestyn y ddarpariaeth "dysgu fideo/e-ddysgu" yn sgil y prosiect CIF	2006/2007
	Sicrhau fod yr adnoddau angenrheidiol ar gael i gyflwyno darpariaeth 2006/7	2006/2007
	Ymestyn y ddarpariaeth "dysgu fideo/e-ddysgu" yn sgil y prosiect CIF	2007/2008
Sicrhau fod yr adnoddau angenrheidiol ar gael i gyflwyno darpariaeth 2007/8	2007/2008	
Wyneb cyhoeddus y Coleg	Cynnal awdit er mwyn sicrhau fod dogfennaeth y Coleg yn ymdrin â'r Gymraeg mewn ffordd gyson.	2005/2006
	Paratoi banc o ddogfennau templed yn dilyn yr uchod	2005/2006

Dulliau Addysg Dwyieithog	Awdit llawn o'r dulliau mae'r Coleg yn defnyddio ac ystyriaeth o effaith yr NPFS ar gyllid dwyieithrwydd	2005/2006
Staff y Coleg	Cefnogi Cynllun Sabothol Elwa	05/06, 06/07, 07/08
	Atgyfnerthu'r drefn o hyfforddiant Cymraeg i staff	06/07, 07/08
	Bydd y Pennaeth a Dirprwy Bennaeth y Coleg yn clustnodi'r swyddi hynny lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol oherwydd natur y swyddi.	2006/2007
Cyffredinol	Atgyfnerthu'r broses fonitro – gweithrediad y Cynllun Iaith gan gynnwys y targedau sy'n cael eu nodi yma.	2005/2006
		2006/2007
	Cyflwyno adroddiad blynyddol ar weithrediad y Cynllun i Gorfforaeth y Coleg	2006/2007 ac yn barhaus

Cynllun Blwyddyn – 2005/2006

Maes cyffredinol	Maes Penodol	Targed	Cyfrifoldeb	Cost
Natur ieithyddol y Coleg yn gyffredinol	Y drefn o annog myfyrwyr i astudio drwy'r Gymraeg	Cytuno trefn newydd erbyn Mehefin 2006 i'w weithredu gyda cohort Medi 2006	RTL/IR	Dim cost ychwanegol
	Cyflwyno Gwobrau Astudio'n ddwyieithog	Cyflwyno am y tro cyntaf yn y flwyddyn	IR	Cyllid presennol y Coleg a Bwrdd yr Iaith
	Cynhyrchu copi cryno o'r Cynllun iaith at ddefnydd staff	Erbyn Mehefin 2006	IR	Cyllid presennol y Coleg
Y ddarpariaeth o safbwynt dysgu ac addysgu	Sicrhau fod Cyfadranau yn llunio targedau realistig ar gyfer 2006/7	Erbyn Haf 2006	IR	Dim cost
	Cymraeg i Oedolion – trafod gyda'r Canolfannau Iaith newydd	Erbyn Haf 2006	IJR	Dim cost
	Paratoi adnoddau newydd	9 uned galwedigaethol	IR i arwain	£13,500
Partneriaethau/Cyd weithio gydag eraill	Cwblhau prosiect CIF "Dysgu Fideo Dwyieithog" yn llwyddiannus	Gweler targedau'r prosiect	GD	O fewn cyllid y prosiect CIF
	Cyfarfod Darparwyr eraill i drafod arfer da mewn dysgu dwyieithog	Cyfarfod cyn Gorffennaf 2006	IR	£3,300 - costau rhyddhau staff a theithio
	Sefydlu Grŵp Traws-sectorol ar Ddwyieithyrwdd – ar y cyd gyda Choleg Menai ac ysgolion Gwynedd a Môn (er mwyn rhannu afer dda a.y.b.)	Sefydlu'r Grŵp erbyn Haf 2006	IR	£1,500 - costau rhyddhau staff a theithio
Wyneb cyhoeddus y Coleg	Cynnal awdit er mwyn sicrhau fod dogfennaeth y Coleg yn ymdrin â'r Gymraeg mewn ffordd gyson.	Erbyn Gorffennaf 2006	RhE	Dim cost
	Paratoi banc o ddogfennau templed yn dilyn yr uchod	Erbyn Medi 2006	RhE	Cyllid presennol y Coleg

Dulliau Addysg Dwyieithog	Awdit llawn o'r dulliau mae'r Coleg yn defnyddio ac ystyriaeth o effaith yr NPFS ar gyllid dwyieithrwydd – cydweithio gyda sefydliadau eraill	Erbyn Haf 2006	TR	Dim cost
Staff y Coleg	Cefnogi Cynllun Sabothol Elwa	Adnabod 4 aelod o staff ar gyfer y cohort nesaf, gan asesu'r effaith tymor byr a thymor hir ar y staff, coleg a'r dysgwyr	HBW/IR	Dim cost i'r Coleg
Cyffredinol	Atgyfnerthu'r broses fonitro – gweithrediad y Cynllun Iaith gan gynnwys y targedau sy'n cael eu nodi yma.	Sefydlu trefn erbyn Haf 2006	IR	Dim cost
	Cyflwyno adroddiad blynyddol ar weithrediad y Cynllun i Gorfforaeth y Coleg	Erbyn Nadolig 2006	IR	Dim cost

Cynllun Blwyddyn – 2006/2007

Maes cyffredinol	Maes Penodol	Targed	Cyfrifoldeb	Cost
Natur ieithyddol y Coleg yn gyffredinol	Monitro llwyddiant y drefn newydd o annog myfyrwyr ac adolygu yn ôl yr angen	Cynnydd yn y rhai sy'n dewis astudio drwy'r Gymraeg	IR	Dim cost
	Adolygu llwyddiant y drefn o wobrwyo astudio'n ddwyieithog ac adolygu yn ôl yr angen	Erbyn Medi 2006	IR	Dim cost
Y ddarpariaeth o safbwynt dysgu ac addysgu	Symud Cyfadrannau at drefn o flaenoriaethu mwy effeithiol ym maes datblygu adnoddau	Targedau dwyieithrwydd ar gyfer 2007/2008 wedi eu llunio erbyn Mehefin 2007	IR/Penaethiaid y Cyfadrannau	Dim cost
	Cwblhau'r gwaith o lunio cynlluniau iaith cyrsiol	Pob cwrs i lunio ei bolisi iaith erbyn Mehefin 2007	IR/ Penaethiaid y Cyfadrannau	Dim cost
	Cymraeg i Oedolion – sicrhau'r trefniadau iawn er mwyn cyflawni'r gwaith	Nid yw'n bosibl ymateb i hwn ar hyn o bryd		
	Paratoi adnoddau newydd ar gyfer darpariaeth fewnol y Coleg	12 o unedau cyrsiau galwedigaethol erbyn Medi 2007	IR i arwain	£18,000

Partneriaethau /Cydweithio gydag eraill	Ymestyn y ddarpariaeth "dysgu fideo/e-ddysgu" yn sgîl y prosiect CIF	100 o ddysgwyr newydd	GD yn arwain	Mae galw am gyllid canolog i gefnogi'r ddarpariaeth yma - angen trafodaeth bellach gydag ELWa
	Canfod ffordd fwy effeithiol o gyflwyno cwrs lefel 3 Cymraeg Ail Iaith ar draws Gwynedd - trafodaethau gyda Chwmni Cynnal	Cytuno dulliau newydd o gydweithio erbyn Haf 2006, a gwaith paratoi i ddilyn.	IJR	Rhyddhau staff (5 diwrnod) - £2,000 Gwaith paratoi - cost eto i'w hadnabod
	Sicrhau fod yr adnoddau angenrheidiol ar gael i gyflwyno darpariaeth CIF 2007/8	Nid yw'n bosibl hadnabod hwn ar hyn o bryd		
Staff y Coleg	Cefnogi Cynllun Sabothol Elwa	Adnabod 4 aelod o staff, gan asesu'r effaith tymor byr a thymor hir ar yr aelod o staff, y Coleg ar ddysgwyr	HBW/IR	Dim cost i'r Coleg
	Atgyfnerthu'r drefn o hyfforddiant Cymraeg i staff	Adnabod 10 o staff ar gyfer hyfforddiant	HBW/IR	£2,000 os cyrsiau byr; £37,000 os oes angen rhyddhau staff am hanner diwrnod yr wythnos
	Bydd y Pennaeth a Dirprwy Bennaeth y Coleg yn clustnodi'r swyddi hynny lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol oherwydd natur y swyddi.	Erbyn Nadolig 2006	IJR/TR	Dim cost

Cyffredinol	Atgyfnerthu'r broses fonitro – gweithrediad y Cynllun Iaith gan gynnwys y targedau sy'n cael eu nodi yma.	Cloriannu gweithrediad y broses monitro newydd a chyflwyno gwelliannau yn ôl yr angen.	IR	Dim cost
	Cyflwyno adroddiad blynyddol ar weithrediad y Cynllun i Gorfforaeth y Coleg	Erbyn Rhagfyr 1af yn Flynyddol	IR	Dim cost

Cynllun Blwyddyn – 2007/2008

Maes cyffredinol	Maes Penodol	<u>Targed</u>	Cyfrifoldeb	Cost
Y ddarpariaeth o safbwynt dysgu ac addysgu	Paratoi adnoddau newydd ar gyfer darpariaeth fewnol y Coleg	12 o unedau cyrsiau galwedigaethol erbyn Medi 2007	IR yn arwain	£18,000
Partneriaethau/Cyd weithio gydag eraill	Ymestyn y ddarpariaeth "dysgu fideo/e-ddysgu" yn sgîl y prosiect CIF	Nid yw'n bosibl adnabod hwn ar hyn o bryd		
	Sicrhau fod yr adnoddau angenrheidiol ar gael i gyflwyno darpariaeth 2007/8	Yn ddibynnol ar yr uchod		
Staff y Coleg	Cefnogi Cynllun Sabothol Elwa	Asesu'r angen yn dilyn hyfforddi 8 o staff gan ymateb yn ôl yr angen	HBW/IR	Dim cost i'r Coleg
	Atgyfnerthu'r drefn o hyfforddiant Cymraeg i staff	Asesu'r angen yn dilyn hyfforddi 20 o staff gan ymateb yn ôl yr angen	HBW/IR	Yn ddibynnol ar ganlyniad yr asesiad
Cyffredinol	Cyflwyno adroddiad blynyddol ar weithrediad y Cynllun i Gorfforaeth y Coleg	Yr adroddiad blynyddol i fod yn barod erbyn Rhagfyr 1af.	IR	Dim cost

ATODIADAU

Atodiad 1 Arolwg Sgiliau Iaith Staff Dysgu

Atodiad 2 Arolwg Sgiliau Iaith Staff Cefnogi

Atodiad 3 Cofnod sgwrs – Dewis cwrs a iaith astudio myfyrwyr

Atodiad 1

AROLWG O SGILIAU IAITH STAFF DYSGU

SGILIAU LLAFAR

Y nifer staff sy'n datgan eu bod a'r hyder i ddysgu eu pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg	56
Y nifer sy'n datgan eu bod a'r hyder i ddysgu eu pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg gyda chymorth deunyddiau ysgrifenedig dwyieithog wedi ei paratoi ymlaen llaw	12
Y nifer sy'n datgan nad ydynt yn hyderus i ddysgu eu pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg	17
Cyfanswm	85

SGILIAU YSGRIFENEDIG

Y nifer staff sy'n datgan eu bod yn hyderus i ysgrifennu nodiadau, taflenni gwaith, ayb yn eu meysydd yn Gymraeg, neu i gyfieithu'r rhain eu hunain o'r Saesneg i'r Gymraeg	37
Y nifer sy'n hyderus i ysgrifennu nodiadau, taflenni gwaith, ayb yn eu meysydd yn Gymraeg, neu i gyfieithu'r rhain eu hunain o'r Saesneg i'r Gymraeg, ond gyda chymorth golygyddol gan Adran Gyfieithu'r Coleg	29

Yn ychwanegol at y rhai uchod:

Y nifer sy'n hyderus i ysgrifennu fan bwyntiau neu fan nodiadau ar y bwrdd gwyn mewn sefyllfa dysgu	5
Y nifer sy'n hyderus i farcio gwaith ysgrifenedig myfyrwyr sydd wedi cyflawni eu gwaith yn Gymraeg	7
Y nifer sydd heb ddatgan hyder mewn un o'r dosbarthiadau	13

DYSGWYR

	Hyderus	Dim yn hyderus
Pan gynhelir cyfarfod staff (cyfadran, tîm, ayb) y nifer sy'n fodlon eu bod yn medru dilyn trafodaeth yn Gymraeg, gan ddeall pwyntiau'r drafodaeth	17	6
Pan gynhelir cyfarfod staff y nifer sy'n hyderus i gyfrannu at y drafodaeth yn Gymraeg	8	15

CYRSIAU I DDYSGWYR

A ydych wedi mynychu cwrs dysgu Cymraeg? Ydwyf

Nac Ydwyf

Os ydych, pa fath o gwrs / lefel:

Dechreuwyd

Canolradd

Uwch

A ydych yn mynychu cwrs dysgu Cymraeg ar hyn o bryd? Ydwyf

Nac Ydwyf

Os ydych, pa fath o gwrs / lefel:

Dechreuwyd

Canolradd

Uwch

CYRSIAU ARALL

A ydych wedi mynychu cwrs Gloywi Iaith? Ydwyf

A ydych wedi mynychu cwrs Dysgu Dwyieithog? Ydwyf

CYRSIAU AT Y DYFODOL

A hoffech fynychu cwrs dysgu'r Gymraeg / Gloywi Iaith / Dysgu Dwyieithog?

Nodwch ba fath o gwrs:

I ddysgwyr: Dechreuwyd Canolradd Uwch

Cyrsiau arall: Gloywi Iaith Dysgu Dwyieithog

Atodiad 2

Sgiliau Iaith Cymraeg Staff Ategol

Cyffredinol:

Staff parhaol 72 Dros dro 3 Dros tymor penodedig 9

Sgiliau Siarad, Darllen ac Ysgrifennu yn Gymraeg:

Sgiliau Iaith Staff Cefnogi – Canlyniadau'r Arolwg Hunan-asesu

<i>Math o swydd</i>	<i>Efen</i>	<i>Rhugl neu eithaf da</i>	<i>Cymhedrol neu ychydig</i>	<i>Dim o gwbl</i>
Cyfieithwyr	Siarad	2		
	Darllen	2		
	Ysgrifennu	2		
Cynorthwywyr dosbarth a gofalwyr myfyrwyr	Siarad	9		
	Darllen	9		
	Ysgrifennu	8	1	
E-ddysgu a llyfrgell	Siarad	7	1	
	Darllen	8	1	
	Ysgrifennu	4	4	1
Fferm a choedwig	Siarad	3		
	Darllen	3		
	Ysgrifennu	1	2	
Ffreutir a chegin	Siarad	10		3
	Darllen	9	1	3
	Ysgrifennu	8	2	3
Gofalwyr safle a thirmyn	Siarad	1	2	
	Darllen		3	
	Ysgrifennu		2	1
Gwasanaethau i fyfyrwyr	Siarad	2		
	Darllen	2		
	Ysgrifennu	2		
Gweinyddol	Siarad	10		
	Darllen	10		
	Ysgrifennu	10		
Hyfforddwyr, Cydlynnydd Rygbi	Siarad	5	2	
	Darllen	5	2	
	Ysgrifennu	5	2	
Marchnata	Siarad	2		
	Darllen	2		
	Ysgrifennu	2		
Rheolwr Canolfan Morwrol	Siarad	1		
	Darllen	1		
	Ysgrifennu	1		
Swyddfa a derbynfydd	Siarad	17		
	Darllen	17		
	Ysgrifennu	16	1	

<i>Math o swydd</i>	<i>Elfen</i>	<i>Rhugl neu eithaf da</i>	<i>Cymhedrol neu ychydig</i>	<i>Dim o gwbl</i>
Swyddog ystadau	Siarad		1	
	Darllen		1	
	Ysgrifennu			1
Technegwyr	Siarad	5	2	
	Darllen	4	3	
	Ysgrifennu	4	2	1
Wardeiniaid	Siarad	2		
	Darllen	2		
	Ysgrifennu	2		
Cyfansymiau	Siarad	76	9	3
	Darllen	74	11	3
	Ysgrifennu	65	16	7
Canrannau	Siarad	86%	10%	3%
	Darllen	84%	13%	3%
	Ysgrifennu	74%	18%	8%

A ydych yn gwneud y canlynol, yn Gymraeg neu'n Saesneg, wrth gyflawni'ch dyletswyddau colegol?

	Yn ddyddiol	Yn aml	O dro i dro	Byth
Siarad	70 (80%)	9	8	1
Darllen	33 (38%)	16	27	11
Ysgrifennu	24 (27%)	22	25	16

Os ydych yn gwneud un neu fwy o'r uchod, pa mor aml ydych yn defnyddio'r Gymraeg?

	Yn ddyddiol	Yn aml	O dro i dro	Byth
Siarad	72 (82%)	4	4	2
Darllen	51 (60%)	13	12	6
Ysgrifennu	43 (49%)	12	13	13

A ydych wedi mynychu cwrs Gloywi Iaith?

Ydwyf 9

Dysgwyr Cymraeg: A ydych wedi mynychu cwrs dysgu Cymraeg?

Ydwyf 7

Nac ydwyf 17

A ydych yn mynychu cwrs dysgu Cymraeg ar hyn o bryd

Ydwyf 2

Nac ydwyf 21

A hoffech fynychu cwrs dysgu'r Gymraeg, Gloywi Iaith, neu gwrs arall yn y dyfodol?

Cyrsiau Dechreuwyr 5

Cwrs Canolradd 4

Cwrs Uwch 3

Gloywi Iaith 16

Terminoleg cyfrifiadeg a Swyddfa 1

Sgiliau Iaith Swyddfa ayb 1

Atodiad 3

COLEG MEIRION-DWYFOR

<p>Myfyrwyr Lefel AS/BTEC/ CGC AS/BTEC/ NVQ Students Dewis pynciau a chyfrwng iaith – taflen gynghori Subject choice and language of study – counselling form</p>
--

<p>Enw / Name</p> <p>Dyddiad Geni – Date of Birth</p>

Graddau TGAU Allweddol / Key GCSE Grades:

Cymraeg Iaith Gyntaf		Llenyddiaeth Gymraeg	
English Language		English Literature	
Cymraeg Ail Iaith Welsh 2 ND Language		Mathemateg / Mathematics	

Sylwadau'r tiwtoriaid ynglŷn ag addasrwydd y dewis pwnc, a'r cyfrwng iaith: <i>Subject tutors' comments regarding suitability of subject choice, and language choice:</i>	Gradd TGAU perthnasol Relevant GCSE grade(s)	Cymraeg / Saesneg	Dewis Cyfrwng Iaith/Language of study choice C/S W/E	Llofnod Tiwtor Tutor's Signature
Pwnc <i>Subject</i>				
Pwnc <i>Subject</i>				
Pwnc <i>Subject</i>				
Pwnc <i>Subject</i>				